# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 28 Medi a 5 Hydref 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

25 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

25 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

29 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

35 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

38 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn manteisio ar ddigwyddiadau chwaraeon a gynhelir yng Nghymru i hyrwyddo materion polisi trawsbynciol? (WAQ47806)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau chwaraeon sy'n cynnig nifer o fanteision trawsbynciol: o hyrwyddo Cymru i'r byd, cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol, hyrwyddo Cymru fel man i ymweld ag ef a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan safon uchel i ddigwyddiadau a lle i wneud busnes ynddo. Mae ein dull strategol o gefnogi digwyddiadau wedi'i seilio ar sicrhau'r enillion mwyaf posibl o'n buddsoddiad ar draws amrywiaeth eang o bortffolios polisi.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiant ffilm yng Nghymru? (WAQ47808) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Yr wyf fi wedi cymryd y cwestiwn hwn gan fod y mater yn dod o fewn fy mhortffolio o safbwynt y strategaeth i'r diwydiannau creadigol.

Fwyfwy, mae ein strategaeth i'r diwydiannau creadigol yn cael effaith gadarnhaol ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac yr wyf yn hyderus o ddyfodol da i'r diwydiant. Y llynedd, cyfrannodd ffilmio yng Nghymru dros £18 miliwn i'r economi. Yn ogystal, mae gennym ddiwydiant teledu llewyrchus gyda chyfresi *Dr Who* a *Torchwood*, canolfan ddrama newydd y BBC yn Nhrefforest a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan S4C ac ITV, sy'n dangos ymrwymiad i lwyddiant yng Nghymru.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid sydd ar gael i ddynion a merched sy'n cynrychioli Cymru mewn digwyddiadau chwaraeon o bwys? (WAQ47817)

**Alun Pugh:** Mae cynllun Elite Cymru a'r rhaglen perfformiadau o safon fyd-eang yn darparu cyllid i athletwyr elite o Gymru i gymryd rhan mewn rhaglenni perfformio yn baratoad ar gyfer cystadlaethau mawr. Cyfrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £150,000 tuag at gost y tîm o Gymru a gymerodd ran yng Ngemau'r Gymanwlad yn Awstralia eleni.

Mae cymorth ariannol Llywodraeth y Cynulliad i ddigwyddiadau chwaraeon mawr hefyd yn rhoi cyfle da i'n hathletwyr a'n pobl chwaraeon elite i gystadlu ar lwyfan y byd.

**Laura Anne Jones:** Sut y mae'r Gweinidog yn annog mwy o bobl i wirfoddoli fel hyfforddwyr chwaraeon yng Nghymru? (WAQ47818)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi £3.9 miliwn yn y cynllun hyfforddi i Gymru er mwyn cynyddu'r nifer o hyfforddwyr ac arweinwyr gwirfoddol a phroffesiynol yng Nghymru a gwella ansawdd yr hyfforddi drwy addysg a hyfforddiant. Bydd y cynllun hyfforddi i Gymru hefyd yn creu seilwaith o hyfforddwyr ac arweinwyr yn y gymuned i ddarparu rhagor o gyfleoedd i bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o blant a fanteisiodd ar y cynnig i gael gwersi nofio am ddim yn ystod gwyliau haf yr ysgol? (WAQ47819)

**Alun Pugh:** Caiff effaith lawn y cynllun peilot cenedlaethol nofio am ddim ei gyflwyno mewn adroddiad gwerthuso terfynol ym mis Mehefin 2007. Mae buddsoddiad £2.5 miliwn Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn nofio am ddim i bobl ifanc yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y lefelau cyfranogi ym maes nofio ar draws Cymru. Ar gyfartaledd, ceir cynnydd o 30,000 yn y nifer o episodau nofio gan bobl ifanc yn ystod gwyliau'r haf (o gyfartaledd o 65,000 yn 2002 i gyfartaledd o 95,000 yn 2005).

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau ynghylch llwyfannu gemau terfynol cwpanau pêl-droed yn Stadiwm y Mileniwm yn y dyfodol? (WAQ47820)

**Alun Pugh:** Yr ydym yn cael trafodaethau'n rheolaidd gyda Stadiwm y Mileniwm am amrywiaeth eang o ddigwyddiadau. Bydd gêm derfynol Cwpan yr FA a llawer o gemau terfynol pwysig eraill yn dychwelyd i Wembley cyn gynted ag y bydd y gwaith adeiladu wedi cael ei gwblhau.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fudd chwaraeon i ffordd iach o fyw? (WAQ47821)

**Alun Pugh:** Mae ein polisïau ar fudd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i ffyrdd iach o fyw wedi'u cynnwys yn y ddogfen 'Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf'. Mae hwn yn ymateb o bwys i her iechyd Cymru ac mae'n nodi ein fframwaith gweithredu a'r meysydd allweddol i fuddsoddi ynddynt fel y gallwn ddod yn Gymru iachach, fwy ffit ac yn rym cystadleuol ar lwyfan y byd.

**Jonathan Morgan:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda chynrychiolwyr o Gyngor Dinas Caerdydd ynghylch cwblhau rinc sglefrio dros dro ar gyfer prifddinas Cymru? (WAQ47822)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol gyda chyngor Caerdydd am ddarparu rinc sglefrio dros dro yng Nghaerdydd.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth ar gyfer arddangosfeydd celf y tu allan i Gaerdydd? (WAQ47823)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid i ddatblygu rhwydwaith o ganolfannau i sicrhau bod arddangosfeydd celf yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd ar draws Cymru. Mae canolfannau newydd fel y Riverfront, Casnewydd, Galeri yng Nghaernarfon, y gofod oriel yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a Chanolfan Gelfyddydau Mwldan sydd wedi cael ei hailwampio yn ychwanegu at ein darpariaeth bresennol o orielau rhagorol ar draws Cymru. Bydd ein buddsoddiad yn y canolfannau newydd hyn yn cynnig rhagor o gyfleoedd i artistiaid i arddangos a marchnata eu gwaith.

**Celf Cymru Gyfan**

Ym mis Rhagfyr 2004 lansiais Celf Cymru Gyfan—ArtShare Wales, rhaglen bartneriaeth i'r celfyddydau gweledol. Hyd yma mae nifer o arddangosfeydd wedi cael eu cynnal fel rhan o raglen a ddatblygwyd i ddangos eitemau o'r casgliadau cenedlaethol mewn rhwydwaith o orielau rhanbarthol. Mae'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Amgueddfa Genedlaethol i arddangos ein trysorau cenedlaethol ym mhob rhan o Gymru.

Y pum oriel ranbarthol yw:

- Castell Bodelwyddan, Sir Ddinbych;
- Oriel Mostyn, Llandudno;
- Canolfan Grefftau Rhuthun;
- Oriel Davies, y Drenewydd; ac
- Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe.

Yr oeddwn yn falch o gyhoeddi dyfarniad loteri cyfalaf o £2.6 miliwn i Oriel Mostyn yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin. Mae Oriel Mostyn wedi sefydlu ei hun yn gadarn iawn ar y map o ran celfyddydau cyfoes, ac mae'n un o nifer o ganolfannau diwylliannol cyffrous sy'n ymddangos ar draws Cymru gyfan. Mae'r dyfarniad loteri hwn yn ddatblygiad newydd cyffrous i bobl Llandudno a gogledd Cymru ac i'r celfyddydau yng Nghymru.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfrifoldebau ei bortffolio ar gyfer ffilm yng Nghymru? (WAQ47824)

**Alun Pugh:** Mae cyfrifoldebau fy mhortffolio am ffilm yn ymwneud â gwneud ffilmiau diwylliannol a chadw treftadaeth ffilm Cymru.

Caiff cyllid ei sianelu'n bennaf drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, a ddarparodd gyfanswm o £1,800,000 i amryw o brosiectau'n ymwneud â ffilm, yn cynnwys cynyrchiadau ffilm, gwaith datblygu ac awduron sgrin unigol yn 2005-06. Hyd yma, mae cyngor y celfyddydau wedi darparu £600,000 i brosiectau cyffelyb yn 2006-07.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu cyllid i Sgrîn yn y gorffennol ac erbyn hyn ef yw partner cyllido mwyaf asiantaeth ffilm Cymru sydd newydd gael ei sefydlu (£300,000 yn 2006-07). Mae gan yr asiantaeth ffilm gylch gwaith penodol i annog datblygu celfyddyd, diwydiant a busnes ffilm yng Nghymru. Mae'r asiantaeth yn cael ei harwain gan unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o'r diwydiant, a gobeithir y bydd hynny'n cyfrannu at broffesiynoldeb cynyddol yn y sector yng Nghymru. Mae ganddi hefyd gyfrifoldeb cyffredinol am ŵyl ffilmiau Caerdydd ac mae'n gweithio gyda sinemâu annibynnol ledled Cymru i hyrwyddo arddangosfeydd ac addysg ffilm.

Drwy Lyfrgell Genedlaethol Cymru yr wyf yn cyllido Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, sydd â'r nod o gasglu a chadw treftadaeth glyweledol Cymru.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu Deddf yr Iaith Gymraeg yng Nghymru? (WAQ47828)

**Alun Pugh:** Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio gweithrediad Deddf yr Iaith Gymraeg yn gorffwys yn bennaf gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y cyrff a gwmpasir gan y Ddeddf yn paratoi ac yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg sy'n nodi sut y byddant yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail gydradd wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hefyd yn golygu monitro perfformiad y cyrff hyn wrth iddynt roi eu cynlluniau ar waith. Mae'r £16 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i'r bwrdd rhwng 2003 a 2006 wedi ei alluogi i gynyddu ei waith ar gynlluniau iaith. Mae'r ffaith bod 371 o gynlluniau iaith Gymraeg wedi cael eu cymeradwyo gan y bwrdd yn dangos y datblygiad a fu ers sefydlu'r Ddeddf.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad y cyhoedd at y celfyddydau yng Nghymru? (WAQ47829)

**Alun Pugh:** Mae gan Gymru rwydwaith rhagorol o orielau fel y Riverfront, Casnewydd a chanolfannau o safon fyd-eang fel Canolfan Mileniwm Cymru a Galeri yng Nghaernarfon. Mae cynlluniau fel y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd wedi helpu i sicrhau bod pobl ar draws Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, wedi gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, megis teithiau theatr grwydrol Clwyd Theatr Cymru, a'u mwynhau. Ychwanegwyd yn fawr hefyd at fynediad at y celfyddydau yn y gymuned gan gynllun noson allan Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cyflwynwyd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o fynediad am ddim i Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2001. Mae holl bobl Cymru, ac ymwelwyr â Chymru, yn cael y cyfle erbyn hyn i

werthfawrogi, mwynhau a dysgu oddi wrth ein casgliadau cenedlaethol sy'n cael eu dal ar saith safle ar hyd a lled Cymru.

O'r dechrau, mae'r polisi wedi bod yn llwyddiant aruthrol ac mae wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr yn fawr. Mae'r ffigurau am 2004-05 yn dangos cynnydd o 77 y cant o'u cymharu â'r flwyddyn olaf y codwyd tâl ynddi.

Mae traddodiad gwyliau Cymru, fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Gŵyl Jazz Aberhondd, y Faenol a gŵyl lenyddol y Gelli, yn rhoi cyfle rhagorol i'r cyhoedd i fwynhau'r celfyddydau. Mae'r traddodiad hwn wedi cael ei ehangu dros y blynyddoedd diwethaf i gynnwys nifer cynyddol o wyliau lleol sy'n dechrau magu statws, fel y Caws Mawr yng Nghaerffili a gŵyl y Dyn Gwyrdd yn Aberhonddu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n adolygu ei strategaeth ddiwylliant ar hyn o bryd, a fydd yn cynnwys ystyried y ffordd orau inni ddarparu mynediad at y celfyddydau. Mae rhwystrau gwirioneddol o hyd rhag mynediad at y celfyddydau mewn rhai cymunedau yng Nghymru, ac mae angen diwygio ar gyfer y dyfodol i sicrhau ein bod yn parhau fel gwlad i ddatblygu celfyddyd ragorol, gyda mynediad i bawb.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd o ran datblygu chwaraeon yng Nghymru? (WAQ47830)

**Alun Pugh:** Er mwyn symud ein strategaeth 'Dringo'n Uwch' ymlaen yr wyf wedi amlinellu amryw o gynlluniau i ddatblygu chwaraeon yng Nghymru yn ein dogfen 'Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf' a lansiwyd gennyf ar 26 Gorffennaf 2006. Mae hon yn darparu'r weledigaeth ac yn nodi'r fframwaith gweithredu a'r meysydd buddsoddi allweddol hyd at 2008-09 i'n galluogi i wireddu ein nod hirdymor o wneud Cymru yn genedl iachach ac yn rym cystadleuol ar lwyfan y byd.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47893) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ47898.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i ddwyn perswâd ar Lywodraeth San Steffan i gynyddu'r cynllun cymorth ariannol er mwyn sicrhau bod pob aelod o ymddiriedolaeth bensiwn ASW yn derbyn eu hawliad pensiwn yn llawn? (WAQ47812)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Er 2002 mae'r Prif Weinidog a minnau wedi codi sefyllfa aelodau cynllun pensiwn ASW gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn rheolaidd, yn cynnwys yr Ysgrifenyddion Gwladol blaenorol a phresennol dros Waith a Phensiynau.

Fel Llywodraeth yr ydym yn dal i weithio'n agos gydag Undeb Community a'i bwyllgor ymgyrchu ASW etholedig i sicrhau bod hawliau pensiwn llawn yn cael eu hadfer i holl aelodau cynllun pensiwn ASW ac mae'r Prif Weinidog yn cael trafodaethau'n rheolaidd gydag ysgrifennydd cyffredinol yr undeb am y mater hwn.

Efallai fod y gweithredu hwn wedi bod yn ffactor yng nghyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 25 Mai bod cyllid ychwanegol sylweddol o ryw £1.7 biliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynllun cymorth ariannol, a bod y cymorth ariannol yn cael ei ehangu i'r rhai a oedd o fewn hyd at 15 mlynedd i oedran ymddeol ar 14 Mai 2004.

Er bod y cyhoeddiad yn gam mawr ymlaen, a bod llawer mwy o gyn weithwyr ASW yn gallu elwa o'r cynllun cymorth ariannol erbyn hyn, mae llawer o gyn weithwyr eraill sy'n dal yn anghymwys i gael cymorth, yn cynnwys y rhai sydd wedi talu i'r cynllun pensiwn am hyd at 30 o flynyddoedd, ond a oedd fwy na 15 mlynedd o oedran ymddeol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gael y fargen orau bosibl i gyn staff ASW. Bydd y cam gweithredu nesaf yn dechrau'r mis nesaf pan fydd goblygiadau'r achos cyfreithiol sydd ar y gweill wedi cael eu hasesu gan bob parti.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd rheilffyrdd fel rhan o ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru? (WAQ47813)

**Andrew Davies:** Elfen fach o deithio drwyddo draw yw teithio ar y rheilffyrdd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ganddo rôl allweddol o ran gweithredu ein polisi trafnidiaeth integredig ac mae i gyfrif am bron i 20 miliwn o siwrneiau y flwyddyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgymryd ag asesiad cynllunio o wasanaethau a seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r rheilffyrdd, ynghyd â dulliau eraill o alluogi symudiadau teithwyr a nwyddau, yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad system drafnidiaeth gynaliadwy.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau gwaith electronig LG yng Nghasnewydd? (WAQ47815)

**Andrew Davies:** Ar 18 Awst, cyhoeddodd LG wrth ei weithlu y byddai'n cau ei waith electronig yng Nghasnewydd erbyn diwedd y flwyddyn. Beiai'r cwmni, sy'n cydosod monitorau cyfrifiaduron, y gostyngiad mewn prisiau a'r cynnydd mewn costau cynhyrchu am y cau.

Fel y gwyddoch, talodd y Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd, Awdurdod Datblygu Cymru a sefydliadau hyfforddi gyfanswm o £131 miliwn i gynorthwyo prosiectau LG. O'r £131 miliwn a dalwyd mewn gwirionedd—yn bennaf gan y Swyddfa Gymreig o dan arweiniad y Ceidwadwyr a'r WDA gynt—mae Llywodraeth y Cynulliad wedi adennill £28 miliwn o arian ac wedi cymryd y tir a'r adeiladau yn ôl.

Y ffactor pwysig yn awr yw sicrhau bod y gweithwyr y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio arnynt yn cael cymorth i ddod o hyd i waith newydd. Mae gan fy adran record ragorol yn delio â chyhoeddiadau o'r fath a bydd yn gwneud popeth sy'n bosibl i sicrhau bod y gweithwyr yn cael cymorth.

**Owen John Thomas:** Pa ymgynghori a fu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Llyfrfa yng Nghaerdydd ynghylch colledion swyddi, ar ôl iddi gau'n ddiweddar? (WAQ47880)

**Andrew Davies**: Hysbysodd y Llyfrfa ni'n ddiweddar ei bod wedi penderfynu cau ei siop yng Nghaerdydd, gan golli pump o swyddi. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar wasanaeth cyhoeddi deddfwriaeth y Llyfrfa, sy'n cyflogi un person.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47895) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ47898.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Visteon? (WAQ47915)

**Andrew Davies:** Mae’r adroddiadau yn y wasg yn ddiweddar am werthiant posibl cyfleuster Visteon yn Abertawe wedi’u seilio ar ddyfalu, nid ar ffeithiau caled. Mae fy swyddogion mewn trafodaethau rheolaidd â’r rheolwyr a byddant yn gwneud popeth posibl i sicrhau bod y ffatri’n aros ar agor.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am golledion swyddi yn ardal Castell-nedd Port Talbot? (WAQ47916)

**Andrew Davies:** Yn anffodus mae ardal Castell-nedd Port Talbot wedi wynebu colledion swyddi sylweddol. Drwy ddull Tîm Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio’n agos gyda Chanolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a phartneriaid allweddol eraill i ddarparu cymorth i weithwyr yr effeithiwyd arnynt gan y dileu swyddi. Mae Canolfan Byd Gwaith yn cynnig ystod o gymorth i helpu pobl i ailafael mewn gwaith yn gyflym, neu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Yr ydym yn gweithio gyda llawer o gwmnïau ar brosiectau creu swyddi yn yr ardal.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa gyflogaeth yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ47918)

**Andrew Davies:** Yr oedd y gyfradd gyflogaeth yng Ngorllewin De Cymru yn y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2006 yn 68.6 y cant o’r boblogaeth oedran gweithio, cynnydd o 0.5 pwynt canran o’i gymharu â 2001. Yr oedd y ffigur i Gymru am y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2006 yn 71 y cant. Yr ydym yn parhau i gadw diweithdra ar gyfraddau hanesyddol isel ac i leihau anweithgarwch economaidd.

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi eu cymryd yn ddiweddar i ddwyn perswâd ar Lywodraeth San Steffan i gynyddu’r Cynllun Cymorth Ariannol er mwyn sicrhau bod pob aelod o Ymddiriedolaeth Bensiwn ASW yn derbyn eu hawliad pensiwn yn llawn? (WAQ47920)

**Andrew Davies:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i’ch cwestiwn blaenorol ar 25 Medi.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad economaidd Tor-faen? (WAQ47922)

**Andrew Davies:** Mae ‘Cymru: Economi yn Ffynnu’ yn nodi agenda Llywodraeth y Cynulliad o ran datblygu economaidd ar draws Cymru gyda blaenoriaethau i gynyddu cyflogaeth ymhellach a chodi ansawdd swyddi. Fel rhan o’r agenda hon bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen i symud y strategaeth adfywio i Dor-faen ymlaen ac i sicrhau manteision ychwanegol i’r ardal drwy raglen Blaenau’r Cymoedd. Ymysg yr enghreifftiau mae ein cefnogaeth i Ganolfan Arloesi Springboard ym Mharc Llantarnam, Cwmbrân, a gwblhawyd yn ddiweddar, a’r Ganolfan Treftadaeth Byd ym Mlaenafon, sy’n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd ac sydd i fod i gael ei chwblhau yn 2007.

Yn ogystal, mae 62 cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol gwerth £37 miliwn wedi cael eu gwneud yn Nhor-faen ers sefydlu’r Cynulliad. Disgwylir i’r prosiectau hyn ddenu rhyw £131 miliwn ychwanegol i mewn ar ffurf gwariant cyfalaf, creu bron i 3,700 o swyddi a diogelu 1,137 o swyddi eraill. Mae 82 o gynigion grant buddsoddi wedi cael eu gwneud gan y Cynulliad hefyd yn Nhor-faen, gwerth dros £2.5

miliwn. Disgwylir i'r prosiectau hyn ddenu rhyw £7 miliwn i mewn ar ffurf gwariant cyfalaf, creu 280 o swyddi a diogelu 720 o swyddi eraill.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ail-ddatgan bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fuddsoddi £7.5 miliwn yng nghyswllt pentir Penarth? (WAQ47942)

**Andrew Davies:** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg wedi fy hysbysu bod y gwaith o adeiladu cyswllt pentir Penarth wedi cael ei ohirio oherwydd y cynnydd yn y prisiau, a bod y cyngor yn ymchwilio i opsiynau eraill yn lle'r cynllun presennol o fewn y cyllid sydd ar gael. Edrychaf ymlaen at gael rhagor o wybodaeth gan y cyngor am sut y mae'n bwriadu gweithredu, wedyn gallaf benderfynu ynglŷn â'r grant a ddarparwyd ar gyfer y cynllun gwreiddiol.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau mae'n eu cymryd i hyrwyddo arloesedd yng Nghymru? (WAQ47944)

**Andrew Davies:** Mae'r camau allweddol i hyrwyddo arloesedd yn yr adran arloesi yn ein strategaeth datblygu economaidd, 'Cymru: Economi yn Ffynnu', a'r cynllun gweithredu ar gyfer arloesi, ac maent yn cynnwys:

- ystod o gymorth arloesi i fusnesau yn cynnwys cymorth ariannol i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu (SMART Cymru), cymorth a chyllid i sefydliadau academaidd drwy'r gronfa datblygu gwybodaeth; a
- nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd arloesedd i fusnesau, unigolion ac academia, yn cynnwys e-gylchlythyr InnovationWorks sy'n cynnwys gwybodaeth a syniadau i gynyddu arloesedd a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau. I danysgrifio i'r e-gylchlythyr e-bostiwch at InnovationWorks@wales.gsi.gov.uk.

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â gwneud y defnydd mwyaf effeithiol posibl o statws pathfinder Strategaeth Dinasoedd yn y Rhyl? (WAQ47949) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.***

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r mater hwn ac nid yw wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu cymorth ar y cyd i ardal pathfinder y Rhyl o dan y strategaeth dinasoedd, ac maent hefyd yn cael eu cynrychioli ar grŵp llywio strategaeth ddinasoedd y Rhyl. Drwy'r Is-adran Sgiliau, Busnes a Chyflogadwyedd, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cael ei chynrychioli ar fwrdd prosiect strategaeth dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau, a sefydlwyd i oruchwylio datblygiad y prosiectau pathfinder.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Llywodraeth y Cynulliad o ran sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol posibl o statws pathfinder strategaeth dinasoedd ar gyfer y Rhyl? (WAQ47950) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.***

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r mater hwn ac nid yw wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Fodd bynnag, nod y strategaeth dinasoedd yw darparu cymorth i bobl, yn enwedig y rhai sydd mewn grwpiau difreintiedig, megis y rhai sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, i'w helpu i ddod o hyd i waith, yn ogystal â gwella eu sgiliau fel y gallant symud ymlaen ar ôl cael gwaith. Mae hyn yn unol ag amcanion allweddol Llywodraeth y Cynulliad, ac mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu cymorth ar y cyd i ardal pathfinder y Rhyl o dan y strategaeth dinasoedd. Maent hefyd yn cael eu cynrychioli ar grŵp llywio strategaeth dinasoedd y

Rhyl. Drwy'r Is-adran Sgiliau, Busnes a Chyflogadwyedd, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cael ei chynrychioli ar fwrdd prosiect strategaeth dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau, a sefydlwyd i oruchwylio datblygiad y prosiectau pathfinder.

**Mick Bates:** Pryd fydd y gwelliannau i'r ffordd o Buttington i Middletown wedi eu cwblhau? (WAQ47971)

**Andrew Davies:** Mae'r cynllun yng ngham 3 blaenraglen y cefnffyrdd ac nid yw'n debygol o ddechrau cyn mis Ebrill 2010. Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi dechrau bydd yn cymryd tua 30 mis i'w gwblhau. Mae'r swyddogion yn dal mewn trafodaethau â'r Adran Drafnidiaeth am gyllido ac am gyhoeddi'r llwybr sy'n cael ei ffafrio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Carl Sargeant:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gyrraedd ei nod o fynd i'r afael â phrinder cyfleoedd addysgol, lle mae'n bodoli? (WAQ47861)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae'r polisïau addysg, dysgu gydol oes a sgiliau'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anfantais, lleihau'r bylchau perfformiad, mynd i'r afael â thlodi o ran cyfleoedd addysgol ac ymgyrraedd at ragoriaeth. Mae ein strategaethau a'n hamcanion allweddol wedi'u nodi yn Cymru: Gwlad Well ac Y Wlad sy'n Dysgu ac maent yn cynnwys:

**Y Blynyddoedd Cynnar**
Bydd y cyfnod sylfaen i blant rhwng tair a saith oedd yn darparu cwricwlwm addas yn ddatblygiadol i bob plentyn ifanc a fydd yn diwallu eu hanghenion, yn rhoi iddynt ddechreuad da mewn bywyd ac yn eu helpu hwy a'u teuluoedd i osod dyheadau uchel o ran llwyddiant academaidd a chymdeithasol i'r dyfodol. Mae'n gwricwlwm sy'n adeiladu ar yr hyn y gall plant ei wneud a'r hyn y maent hwy yn ei ddwyn gyda hwy i'r amgylchedd dysgu.

Nod tymor hir y cyfnod sylfaen yw codi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer gormod o blant ifanc yn dechrau ar eu haddysg yn methu siarad am eu teimladau a'u profiadau. Nid oes gan y plant hyn y symbyliad i ddarllen ac ysgrifennu ac nid ydynt yn gweld fawr o werth yn y gweithgareddau hyn. Mae rhoi gormod o bwysau arnynt yn gallu arwain at brofiad o fethiant i blant, colli hyder a cholli hunan-barch a gall hynny arwain at ddadrithiad a thriwantiaeth.

**Ysgolion Bro**
Gall ysgolion chwarae rhan bwysig yn helpu i adeiladu cymunedau cryf a gweithgar lle mae pobl o bob hil a chefndir yn cael eu gwerthfawrogi. Mae cymunedau'n amrywio, ond mae'n debygol mai gwasanaethau sydd o werth neilltuol mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig yw gweithgareddau ysgolion bro. Efallai y gall ysgolion lleol weithio gyda'i gilydd mewn clystyrau, gyda phob ysgol yn datblygu gweithgareddau a gwasanaethau gwahanol. Bydd hyn yn galluogi pob disgybl, teulu a chymuned i fanteisio ar ystod eang o wasanaethau ar draws sawl lleoliad.

**Cymorth/Dechrau'n Deg**
Ymysg y cynlluniau eraill mae Cymorth—y Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc, Cymunedau yn Gyntaf a rhaglen Dechrau'n Deg, a bydd gwasanaethau yn dechrau cael eu darparu ym mis Ionawr 2007.

Drwy Cymorth yr ydym yn gallu cyrraedd llawer o blant a phobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd ar draws Cymru drwy tua 1,000 o brosiectau unigol. Mae'r prosiectau hyn yn gwneud gwaith rhagorol ac maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan deuluoedd.

Targedir Dechrau'n Deg at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan gydnabod y dystiolaeth bod plant mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog yn dioddef effeithiau ychwanegol anfantais. Ymysg yr ymyriadau arfaethedig mae gofal plant safonol, am ddim, lefel uwch o wasanaeth gan ymwelwyr iechyd, a rhaglenni magu plant sy'n hybu gwell canlyniadau i blant yn y tymor hir. Targedir y cynigion at nifer gyfyngedig o ddalgylchoedd ysgolion er mwyn buddsoddi'n ddwys. Efallai y caiff y rhaglen ei hehangu yn y dyfodol yn sgil gwerthuso. Mae Dechrau'n Deg yn trin pob plentyn a'i rieni yn gydradd, a rhaid iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys waeth beth fo eu hil, rhyw, diwylliant, crefydd, anabledd neu ffordd o fyw.

**Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori)**
Bwriad rhaglen Rhagori yw targedu'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad a chynyddu'r disgwyliadau addysgol i ddisgyblion difreintiedig o bob oedran a'u cyrhaeddiad.
Mae tair elfen i'r rhaglen:

1. Mae £14.6 miliwn yn cael ei ddosbarthu i ysgolion targed i ariannu prosiectau a chynlluniau sydd â ffocws pendant, a fwriedir i gynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais neu y mae'r risg fwyaf iddynt gyflawni ar lefel isel yn unig—neu adael addysg amser llawn heb gymwysterau;
2. Mae £1 miliwn yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol i'w galluogi i gefnogi dysgu plant sy'n derbyn gofal yn well;
3. Bydd y gweddill yn ariannu tîm o weithwyr proffesiynol gwella ysgolion i weithio gyda'r AALlau ac ysgolion i ddynodi a rhannu arferion gorau ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gref i seilio cyfeiriad polisi a gwerthuso allanol arni yn y dyfodol.

**Cronfa Ysgolion Gwell**
Mae'r gronfa Ysgolion Gwell yn darparu grant i awdurdodau addysg lleol i gefnogi arloesi ac i ddatblygu a rhannu arferion da mewn ysgolion. Ymysg y meysydd blaenoriaeth sy'n cael cymorth yn ystod 2006-07 mae: pontio effeithiol, sgiliau sylfaenol, gwella presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol, amddiffyn plant, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol mewn ysgolion. Mae rhaglen 2006-07 yn werth £39.333 miliwn, yn cynnwys y cyfraniadau arian cyfatebol gan yr awdurdodau addysg lleol. Dosbarthir grant i'r awdurdodau ar sail fformiwla ddyrannu sy'n cynnwys pwysoliadau am amddifadedd cymdeithasol (seiliedig ar y mynegai amddifadedd plant) mewn pump o'r chwe maes gweithgarwch allweddol.

**Gwisg Ysgol**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod rhai rhieni'n wynebu anhawster ariannol wrth brynu gwisg ysgol i'w plant. I helpu i fynd i'r afael â hyn, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun grant gwisg ysgol i Gymru gyfan yn 2005-06 i helpu teuluoedd ar incwm isel gyda chostau prynu gwisg ysgol. Mae'r grant o £95 (wedi codi o £85 yn 2005-06) ar gael eto yn 2006-07 i ddisgyblion sy'n dechrau ar Flwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi 2006 ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ar gael i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n 11 oed ar ddechrau blwyddyn ysgol 2006-07 ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gweinyddir y cynllun ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan yr awdurdodau addysg lleol a dylid cyflwyno ceisiadau am grant iddynt hwy.

**Cynhwysiant**
Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfres o gynlluniau i hyrwyddo addysg grwpiau o ddisgyblion sydd efallai yn cael yr anhawster mwyaf i fanteisio ar neu gynnal eu hymwneud â'r brif ffrwd. Mae'r rhain yn cynnwys y grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig; datblygu gwell ffyrdd o gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys adolygu'r broses o ddarparu datganiadau; hyrwyddo ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â bwlio; sefydlu grŵp rhanddeiliaid i ddatblygu camau gweithredu penodol i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a chynyddu'r niferoedd sy'n mynd ymlaen i addysg a hyfforddiant pellach ac uwch gyda chymorth y grant Rhagori o £1 filiwn ar gyfer 2006-07 a 2007-08. Mae canllawiau ar gynhwysiant a chymorth i ddisgyblion i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2006 a byddant yn nodi dyletswyddau i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol o ran hyrwyddo cynhwysiant, yn cynnwys hyrwyddo ymddygiad positif a lefelau presenoldeb uchel a chynorthwyo unrhyw ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Brecwast**
Mae prydau ysgol a darparu prydau ysgol am ddim yn agwedd neilltuol o bwysig o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn tlodi. Mewn ardaloedd difreintiedig, lle mae'r mwyafrif o brydau am ddim, mae'r rhain yn pennu'r safon i'r gwasanaeth cyfan. Mae ein cynllun brecwast ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn unigryw i Gymru, yn rhoi'r cyfle i ysgolion i gynnig brecwast iach, yn rhad ac am ddim, bob dydd ac wrth wneud hynny maent yn galluogi pawb nad yw wedi cael brecwast, am ba reswm bynnag, i gael un yn yr ysgol. Yr ydym yn cydnabod bod deiet da yn bwysig o ran perfformiad yn yr ysgol ac iechyd ac yr ydym yn benderfynol o helpu i sicrhau, cynnal a gwella iechyd ein plant a'n pobl ifanc drwy edrych ar fwyd a maeth drwy agwedd ysgol gyfan. Mae 'Blas am Oes', a lansiwyd er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd ar 29 Mehefin, yn cynnwys 41 o gynigion am sut y gallwn barhau i wella'r bwyd sy'n cael ei gynnig yn ein hysgolion; daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Hydref 2006.

**Ymgeisio yn Uwch—ehangu mynediad**
Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth allweddol yn 'Ymgeisio yn Uwch'. Mae £14 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddarparu i'r sector y flwyddyn ariannol hon i gefnogi 'Ymgeisio yn Uwch', a bydd cyfran o'r cyllid ychwanegol hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n benodol i gefnogi gweithgareddau ehangu mynediad.

Mae strategaeth 'Ymgeisio yn Uwch' yn strategaeth i Gymru gyfan, a'i nod yw ehangu mynediad i addysg uwch i'r bobl hynny yng Nghymru na fyddent fel arfer yn ystyried gwneud hynny.

Mae pedair partneriaeth ranbarthol yn cwmpasu Cymru gyfan. Mae pob partneriaeth yn darparu ystod eang o weithgareddau a fwriadwyd i helpu a chefnogi'r rhai sydd â'r potensial i fanteisio ar addysg uwch. Ymysg y gweithgareddau mae mentora myfyrwyr, prifysgolion haf a gweithdai 'blasu bywyd prifysgol'.

Yn ogystal â'r gweithgareddau hynny, mae'r partneriaethau yn trefnu gweithgareddau a fwriadwyd i hyrwyddo opsiynau addysg uwch yn eu rhanbarthau, gan weithio gydag ysgolion rhanbarthol, prifysgolion a cholegau i helpu i ehangu mynediad i addysg uwch.

**Grantiau myfyrwyr—Grantiau Dysgu'r Cynulliad, Lwfansau Cynhaliaeth Addysg, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ac ati**
A hithau wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb am bob agwedd o gymorth ariannol i fyfyrwyr yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gallu targedu cymorth ariannol at y myfyrwyr lleiaf cefnog mewn ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch. Mae amryw o daliadau cymorth a chymell sy'n ddarostyngedig i brawf modd ar gael, yn amrywio o'r lwfans cynhaliaeth addysg i fyfyrwyr 16 i 18 oed hyd at y grant cymorth arbennig i fyfyrwyr AU sy'n cael Budd-daliadau Gwladol, a nod pob un ohonynt yw cael gwared â rhwystrau ariannol rhag dysgu.

**Darparu Gwaith Ieuenctid**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu ystod o wasanaethau, adnoddau a hyfforddiant i'r rhai sy'n cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc yng Nghymru, mewn sefydliadau addysgol anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys achredu profiadau y mae pobl ifanc yn eu cael yn y gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a statudol, er enghraifft tystysgrif OCN am weithgareddau yr ymgymerir â hwy ac ymwneud cymunedol; defnyddio cydnabyddiaeth gwaith ieuenctid fel Gwobr Dug Caeredin o fewn cyfleoedd addysgol mwy ffurfiol fel Bagloriaeth Cymru, a hefyd ceisio ail-ddenu pobl ifanc sydd wedi dadrithio i ymwneud â'r sefydliad addysgol ffurfiol drwy raglenni mynediad ieuenctid. I gyflawni hyn, mae'r Cynulliad yn cefnogi rhaglen o hyfforddiant i weithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid ac eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc i wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u heffeithiolrwydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth gwasanaeth ieuenctid, mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau a phobl ifanc, a fydd yn cyflwyno ei weledigaeth i'r gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn nodi'r staff, y strwythurau a'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni anghenion y weledigaeth ac i ddyfeisio cynllun gweithredu i'w symud ymlaen. Mae'r Cynulliad hefyd yn hwyluso adolygiad o'r datganiad cwricwlwm gwaith ieuenctid i Gymru, sy'n nodi canllawiau a gwerthoedd creiddiol ar gyfer ymarfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

**Prosiect Dysgu i Droseddwyr Ifanc**
Y prosiect dysgu i droseddwyr ifanc yw'r ail gynllun gan Lywodraeth y Cynulliad i ymdrin â materion dysgu, addysg a hyfforddiant yng nghyd-destun pobl ifanc sydd yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Y prif nod er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, yn arbennig, yw ansawdd ac amrywiaeth y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i bobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru ac o Gymru, sy'n adnabyddus i dimau troseddau ieuenctid neu sy'n gleientiaid mewn rhyw ffordd arall i'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Mae'r arweinydd prosiect yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth cenedlaethol rheoli troseddwyr newydd yng Nghymru mewn perthynas â phobl ifanc sy'n 18 oed neu'n hŷn. Dylai hyn helpu yn y tymor hir i esmwytho'r cyfnod pontio o 17 oed ymlaen a dylanwadu ar/cefnogi cylch gwaith arweinyddion prosiect o ran materion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

**Ymestyn Hawliau**
Mae Ymestyn Hawliau yn un o bolisïau amlwg Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i lluniwyd yng Nghymru i adlewyrchu anghenion pobl ifanc yng Nghymru. Mae'n bolisi arloesol am y rheswm hwnnw a hefyd oherwydd ei natur drawsbynciol o ganlyniad i'w ffordd seiliedig ar hawliau o ymdrin â darparu cymorth a gwasanaethau cyffredinol i bobl ifanc.

Mae Ymestyn Hawliau wedi denu sylw eang ers ei sefydlu yn 2001—gan weddill y DU ac o bob cwr o Ewrop. Mae iddo'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol iawn tuag at ddatblygu'r agenda ieuenctid Ewropeaidd a thuag at agenda ehangach Lisbon sy'n ymdrin â chyflogaeth a sgiliau i bobl ifanc ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Nod Ymestyn Hawliau, drwy'r 10 hawl, yw hyrwyddo cyfle a dewis i bobl ifanc, i'w helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn eu bywydau, i'w helpu i gyflawni eu potensial ac ymgyrraedd at eu dyheadau.

Yn ganolog i Ymestyn Hawliau mae'r syniad y dylai pobl ifanc allu cyrchu at eu hawliau, pa le bynnag yng Nghymru y maent, ar ffurf sy'n hawdd iddynt ei defnyddio.

**Prosiect Cyfranogi**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i hyrwyddo pwysigrwydd gweithio drwy bartneriaeth o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc. Yr ydym wedi ariannu uned a chonsortiwm cyfranogi sy'n cael eu hwyluso gan Achub y Plant Cymru. Mae'r consortiwm yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o gyrff ac asiantaethau statudol a gwirfoddol i blant a phobl ifanc yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n gweithio i rannu syniadau ac ymarfer da ym maes cyfranogiad yn ogystal ag i gefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig yng Nghymru.

**Llwybrau Dysgu 14-19**
Bydd y Llwybrau Dysgu 14-19 yn trawsnewid y cyfleoedd i bobl ifanc yn ddiwahân. Gwneir hyn drwy ehangu dewis a hyblygrwydd; sicrhau llwybrau dysgu sydd wedi eu teilwrio'n unigol sy'n ateb anghenion dysgwyr ac yn darparu cyfleoedd cyfoethocach a phrofiadau a fydd yn help i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer bywyd a gwaith.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni drwy'r Llwybrau Dysgu 14-19 yw y bydd pob person ifanc 14 i 19 oed yn cael llwybr dysgu unigol gyda'r opsiwn sy'n gweddu orau i'w ddiddordebau, ei allu a'i ddulliau dysgu.

Bydd hyn yn ei dro:

- yn lleihau'r nifer o bobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau;
- yn cynyddu presenoldeb, yn lleihau allgáu ac yn gwella'r cyfraddau cadw;
- yn rhoi ffocws cadarnhaol ar gyflawni, lle mae llwyddiant pobl ifanc yn cael ei ddathlu;
- yn cydnabod y cymorth, a fydd yn amrywio dros amser, y mae ei angen ar ddysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a'r ffordd i bob dysgwr gyrchu at gyfuniad unigryw o gymorth i ddiwallu ei anghenion unigol.

**Strategaeth sgiliau sylfaenol**
Mae diffyg sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn rhwystr i unigolyn rhag cyflawni'n addysgol, cael gwaith, cyrchu at ddarpariaeth iechyd a gallu rheoli ei faterion busnes ac ariannol ei hun. Mae hefyd yn ffactor mewn ymddygiad troseddol. Mae'r ail strategaeth sgiliau sylfaenol i Gymru, 'Geiriau'n Galw—Rhifau'n Cyfri' yn cael ei gweithredu gan y Cynulliad mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac mae'n adeiladu ar sylfeini'r strategaeth gyntaf. Mae £40 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y strategaeth bum mlynedd. Mae'n cynnwys dull gweithredu unigryw, pob oedran, sy'n anelu at wreiddio ymyriadau yn y ddarpariaeth ddysgu brif ffrwd.

Mae'r cynlluniau'n canolbwyntio'n gynyddol ar yr ardaloedd sy'n fwyaf eu hangen. Er enghraifft, bydd rhaglen iaith a chwarae ehangach (i ysgogi datblygiad cynnar iaith) ynghyd â rhaglen rhif a chwarae newydd (i ysgogi sgiliau rhifedd) yn targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

**Datblygu'r Gweithlu**
Yr ydym wedi datblygu pecyn hyblyg o gymorth i ddatblygu sgiliau pobl yn y gweithle drwy raglen datblygu'r gweithlu. Mae hon yn golygu dadansoddi'r anghenion hyfforddi, yn cynnwys sgiliau sylfaenol, yn gyntaf, datblygu cynllun hyfforddi a chyfrannu tuag at gost rhoi'r cynllun ar waith.

**Cronfa Ddysgu Undebau Cymru**
Lansiwyd cronfa ddysgu undebau Cymru ym mis Ebrill 1999. Ers ei sefydlu mae'r gronfa wedi darparu dros £4.6 miliwn i ariannu 104 o brosiectau ar draws Cymru. Dau o brif amcanion y gronfa yw:

1. cynyddu sgiliau'r gweithlu;
2. cynyddu'r nifer o ddysgwyr anhraddodiadol sy'n manteisio ar ddysgu.

**Cynlluniau Peilot Cyfrif Cymuned sy'n Dysgu**
Mae cynlluniau peilot cyfrif cymuned sy'n dysgu yn canfod ffyrdd newydd mewn cymunedau o ddarparu dysgu sy'n ateb anghenion y cymunedau hynny fel y'u nodwyd. Bwriad y cyfrifon yw darparu cymorth arloesol i anghenion dysgu cymunedau penodol neu grwpiau o fewn cymunedau. Elfen allweddol y rhaglen yw grymuso'r gymuned er mwyn galluogi cymunedau i ddynodi angen, cynllunio'r ymateb a darparu'r dysgu yn bennaf drwy iddynt hwy eu hunain reoli'r broses.

Ar hyn o bryd mae pum prosiect peilot yn ymateb i amryw o faterion dysgu seiliedig yn y gymuned megis anghenion pobl ifanc ddigartref (yn genedlaethol), anghenion penodol pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio (Castell-nedd Port Talbot) a chefnogi dysgwyr sydd ag anawsterau iechyd meddwl (Parc Caia, Wrecsam), yn ogystal â materion allgáu cymdeithasol mewn perthynas â chymunedau difreintiedig (Treherbert, Rhondda Cynon Taf).

Dyrannwyd cyfanswm o £308,000 i'r flwyddyn gyntaf a'r flwyddyn hon mae £670,000 wedi cael ei neilltuo i ymestyn y cynlluniau peilot a phrofi pa mor gymwys yw'r dull gweithredu hwn i garfannau eraill o ddysgwyr cymunedol sydd wedi'u difreinio, megis grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, pobl fudol a Sipsiwn/Teithwyr ynghyd â rhagor o gymunedau sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau TGAU 2006 yng Nghymru? (WAQ47862)

**Jane Davidson:** Mae ein myfyrwyr TGAU a'n myfyrwyr bagloriaeth Cymru (canolradd) i'w llongyfarch ar eu canlyniadau rhagorol ac mae ganddynt bob rheswm i ddathlu.

Gyda chymorth athrawon a rhieni mae ein myfyrwyr wedi profi unwaith eto bod Cymru yn wir yn wlad sy'n dysgu. Nid yn unig yr ydym wedi rhagori ar ein perfformiadau gorau blaenorol ond mae ein canlyniadau TGAU yng Nghymru yn cymharu'n dda â Lloegr a Gogledd Iwerddon, yr ydym yn rhannu'r fframwaith cymwysterau gyda hwy.

Yr wyf yn neilltuol o falch bod y gyfradd lwyddo TGAU drwyddi draw ar raddau A* i G, y ganran a enillodd A* i C ac A* i A i gyd yn uwch na'r llynedd. Yr oedd y canlyniadau o ran diploma canolradd bagloriaeth Cymru hefyd yn dda iawn—enillodd 63 y cant o'r ymgeiswyr ddiploma canolradd bagloriaeth Cymru yn llawn a chwblhaodd 78 y cant ohonynt y dystysgrif graidd ganolradd yn llwyddiannus

Mae'r cyfraddau llwyddo TGAU mewn Saesneg a mathemateg wedi parhau i wella fel y mae'r perfformiad ym mhob un o'r gwyddorau unigol a'r dyfarniad gwyddoniaeth dwbl.

Mae'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud yn golygu bod myfyrwyr yng Nghymru yn gynyddol yn gallu dewis llwybrau dysgu sy'n gweddu i'w diddordebau, eu dulliau dysgu a'u gallu ond sydd hefyd yn sicrhau eu bod yn barod i barhau â'u dysgu, boed hynny yn yr ysgol, y coleg neu'r gweithle. Mae ein ffocws ar sgiliau yng Nghymru eisoes yn talu ar ei ganfed a dangosir hynny gan y ffaith bod 16 y cant o'r dyfarniadau sgiliau allweddol yn cael eu gwneud i fyfyrwyr yng Nghymru.

Mae poblogrwydd cynyddol bagloriaeth Cymru yn cael ei atgyfnerthu o'r mis hwn pan fydd y peilot yn ymestyn i gynnwys lefelau canolradd a sylfaen yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn yn dynodi cam pwysig arall tuag at y Llwybrau Dysgu 14-19 yr ydym yn eu datblygu. Mae'r myfyrwyr lefel ganolradd ôl-16 cyfredol wedi llwyddo i gwblhau llawer iawn mewn amser byr. Am flwyddyn yn unig y mae llawer wedi dilyn rhaglen bagloriaeth Cymru a gallant fod yn falch iawn o'r hyn y maent wedi ei gyflawni.

Dim ond y dechrau yw'r canlyniadau hyn a gobeithiaf y bydd myfyrwyr yn eu defnyddio i fynd ymlaen i addysg bellach, addysg uwch, hyfforddiant a chyflogaeth i helpu i sicrhau bod Cymru yn wlad lewyrchus a llwyddiannus sy'n dysgu—ac i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyheadau personol hwy hefyd.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gost gwisg ysgol? (WAQ47863)

**Jane Davidson:** Nid oes deddfwriaeth benodol yn ymdrin â gwisg ysgol. Gall cyrff llywodraethu benderfynu pa un a oes gan eu hysgol bolisi gwisg ysgol a beth yw cynnwys y polisi hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf yn disgwyl i gyrff llywodraethu ymgynghori â'r rhieni i gyd wrth gyflwyno neu newid eu polisi gwisg ysgol ac ystyried cost y wisg yn llawn ac a yw rhieni yn gallu ei fforddio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod rhai rhieni yn wynebu anhawster ariannol i brynu gwisg ysgol i'w plant. Caiff hyn effaith arbennig pan fydd disgyblion yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dyna pam y cyflwynais gynllun grant gwisg ysgol i Gymru gyfan yn 2005-06 i helpu teuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol.

Mae cynllun grant gwisg ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gael eto yn 2006-07. Mae £750,000 o arian wedi cael ei ddyrannu i ddarparu grant o £95 (wedi cynyddu o £85 yn 2005-06) i ddisgyblion sy'n dechrau ar Flwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi 2006 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n 11 oed ar ddechrau blwyddyn ysgol 2006-07 ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r awdurdodau addysg lleol yn gweinyddu'r grant ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a dylai ceisiadau am grant gael eu cyfeirio at yr AALlau.

Yn ychwanegol at gynllun Llywodraeth y Cynulliad, mae 13 o AALlau yng Nghymru hefyd yn darparu eu cymorth ariannol eu hunain i deuluoedd i brynu gwisg ysgol. Grantiau dewisol yw'r rhain a mater i'r AALlau yw penderfynu ar swm y cymorth ariannol a'r meini prawf cymhwyso.

**Eleanor Burnham:** Faint o ysgolion a roddwyd ar dân yn fwriadol dros y tair blynedd ddiwethaf ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyn? (WAQ47864)

**Jane Davidson:** Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau gwasanaeth tân am roi ysgolion ar dân yn fwriadol yng Nghymru fel a ganlyn.

Yn y tair blynedd ddiwethaf rhwng 2003-04 a 2005-06 cynhwysol, mae 127 o ysgolion wedi cael eu rhoi ar dân yn fwriadol yn yr ardaloedd a nodir isod:
Dioddefodd ardal Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 53 o ymosodiadau;
Dioddefodd ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 31 o ymosodiadau;
Dioddefodd ardal Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 43 o ymosodiadau.

Mae pwyllgor diogelwch tân cymunedol wedi cael ei sefydlu i gynghori Llywodraeth y Cynulliad am faterion yn ymwneud â diogelwch rhag tân. Mae'r pwyllgor wrthi ar hyn o bryd yn ystyried strategaeth ddrafft i Gymru ar danau bwriadol, sy'n cynnwys argymhellion am systemau taenellu mewn ysgolion, gan fod tystiolaeth yn dangos bod y mwyafrif o danau mewn ysgolion yn danau bwriadol. Unwaith y bydd wedi cael ei chymeradwyo gan y pwyllgor caiff y strategaeth ei chyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad i'w chymeradwyo a bydd yn sylfaen wedyn i fynd i'r afael â phroblem tanau bwriadol yng Nghymru yn y dyfodol.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei tharged ar gyfer gwneud pob adeilad ysgol yn addas ar gyfer ei bwrpas erbyn 2010? (WAQ47865)

**Jane Davidson:** Fel yr adroddais wrth y Pwyllgor Addysgu, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Gorffennaf, mae'r awdurdodau yn gwneud cynnydd sylweddol yn gwella adeiladau ysgolion fel eu bod mewn cyflwr addas ar gyfer eu pwrpas. Yr ydym yn rhagori ar ein hymrwymiad maniffesto i fuddsoddi £560 miliwn i wella adeiladau ysgolion yn ystod oes y Cynulliad hwn. Mae'r buddsoddiad llawn sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth y Cynulliad yn y cyfnod 2004-05 i 2007-08 yn £629.372 miliwn (yn cynnwys gwerth cyfalaf cynlluniau menter cyllid preifat).

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei blaenoriaethau cyfredol ar gyfer addysg yng Nghymru? (WAQ47867)

**Jane Davidson:** Fy mlaenoriaethau yw cyflawni'r ymrwymiadau yn 'Cymru: Gwlad Well' a 'Y Wlad sy'n Dysgu': rhoi buddiannau dysgwyr yn gyntaf, goresgyn rhwystrau rhag dysgu, hyrwyddo cyfle cyfartal, disgwyliadau uchel a safonau. Mae'r blaenoriaethau cyfredol fel y'u hamlinellwyd yng nghynllun gweithredol yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
(http://www.cymru.gov.uk/keypubassemedlearnskills/content/agendas-w.htm)
ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Ffioedd atodol—(Ymrwymiad yn 'Cymru: Gwlad Well')**
O 2006-07, mae gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad. Mae 'Cyllid Myfyrwyr Cymru' yn darparu grantiau a buddsoddiadau i fyfyrwyr mewn partneriaeth â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'r awdurdodau lleol.

Yn unol â'r ymrwymiad yn ein maniffesto, nid oes ffioedd amrywiadwy wedi cael eu cyflwyno yng Nghymru yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad ond mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau nad yw sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i hyn.

**Brecwast Ysgol—(Ymrwymiad yn 'Cymru: Gwlad Well')**
Mae 1,600 yn fras o ysgolion cynradd cymwys yng Nghymru. Cynllun dewisol yw hwn i ysgolion ac i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae llawer o fanteision o gymryd rhan yn y cynllun megis gwella lefelau canolbwyntio ac agwedd plant tuag at ddysgu a rhoi dechrau da i blant i'r diwrnod ysgol.

Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael oddi wrth yr AALlau, cadarnhawyd bod 353 o ysgolion wedi dechrau gweini brecwast erbyn diwedd tymor yr haf 2006. Mae 186 yn rhagor o ysgolion i fod i ddechrau cyfranogi yn ystod tymor yr hydref eleni.

**Buddsoddi £560 miliwn i wella adeiladau ysgolion—(Ymrwymiad yn 'Cymru: Gwlad Well')**
Mae buddsoddi mewn gwell ysgolion yn golygu cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer adeiladau ysgolion i £143 miliwn y flwyddyn o 2005-06 ymlaen. Yn ogystal, mae buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd cynnar o £8,406,000 yn 2006-07 tuag at sefydlu canolfannau integredig a darpariaeth blynyddoedd cynnar.

**Dechrau'n Deg**
Bydd Dechrau'n Deg yn cael ei dargedu at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan gydnabod y dystiolaeth bod plant mewn ardaloedd sydd ag amddifadedd lluosog yn dioddef effeithiau ychwanegol anfantais.

Bydd yn cael ei seilio ar dystiolaeth ryngwladol o'r ymyriadau sy'n hybu gwell canlyniadau i blant yn y tymor hir. Ymysg yr ymyriadau arfaethedig mae gofal plant safonol, yn rhad ac am ddim, lefel uwch o wasanaeth gan ymwelwyr iechyd, a rhaglenni magu plant.

Caiff y cynigion eu targedu at nifer gyfyngedig o ddalgylchoedd ysgolion er mwyn buddsoddi'n ddwys.

**Cyfnod Sylfaen**
Mae'r cyfnod sylfaen yn cael ei dreialu ar hyn o bryd mewn 42 o ysgolion/sefydliadau—dechreuodd y peilot ym mis Medi 2004 a bydd yn parhau nes i'r gwaith statudol i'w gyflwyno'n raddol ddechrau ym mis Medi 2008. Mae'r peilot ar ei drydedd flwyddyn felly ac mae'n cwmpasu ystod oedran lawn y cyfnod sylfaen, o dair i saith.

Yr ydym yn ymgymryd â gwerthusiad llawn o'r peilot a bydd yr adroddiad monitro a gwerthuso am y tair blynedd gyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr ochr yn ochr â chynllun gweithredu a fydd yn nodi sut y byddwn yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r cyfnod yn genedlaethol.

**Canolfannau Integredig**
Erbyn mis Mehefin 2006, yr oedd 38 o ganolfannau wedi agor: mae dwy arall i fod i agor yn gynnar yn 2007 a'r un olaf ddiwedd 2007/dechrau 2008.

Mae canolfannau o'r fath yn dod â'r gwasanaethau canlynol o leiaf ynghyd: addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant, hyfforddiant a chwarae mynediad agored. Gallant hefyd gynnwys ystod o wasanaethau eraill, fel cymorth teuluol ac iechyd. Mae'r union fodel yn dibynnu ar yr asesiad o angen lleol.

**Ysgolion Bro**
Dynodasom £3 miliwn yn 2005-06 a chynyddwyd hyn i £3.6 miliwn o 2006-07 i ddatblygu ysgolion bro—mae £2 filiwn o'r arian yn gysylltiedig â gwaith i helpu i adeiladu cymunedau mwy diogel. Yr ydym yn gobeithio cyllido cynlluniau enghreifftiol y gellir un ai eu defnyddio fel modelau arferion da mewn mannau eraill neu eu bod yn arwain at ddatblygu pellach. Mae'r agenda i ysgolion bro yn un tymor hir. Mae nifer gynyddol o ysgolion wedi mynd gryn lawer o'r ffordd tuag at hyn, nid yw eraill ond yn dechrau. Mae llawer o AALlau yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddatblygu ffocws cymunedol. Yn gynyddol mae buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau ysgol yn cael ei gyfeirio at ddefnydd ysgol a chymunedol deuol.

Atgyfnerthir yr achos o blaid perthynas llawer agosach rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu gan ganfyddiadau'r gwaith ar gau'r bwlch ym mherfformiad ysgolion, sy'n dangos bod ffocws cymunedol yn gallu codi statws dysgu a helpu i yrru newid.

**Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori)**
Bwriad rhaglen Rhagori yw targedu'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad a chynyddu'r disgwyliadau addysgol i ddisgyblion difreintiedig o bob oedran a'u cyrhaeddiad.
Mae tair elfen i'r rhaglen:

1. Mae £14.6 miliwn yn cael ei ddosbarthu i ysgolion targed i ariannu prosiectau a chynlluniau sydd â ffocws pendant, a fwriedir i gynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais neu y mae'r risg fwyaf iddynt gyflawni ar lefel isel yn unig—neu adael addysg amser llawn heb gymwysterau;
2. Mae £1 miliwn yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol i'w galluogi i gefnogi dysgu plant sy'n derbyn gofal yn well;
3. Bydd y gweddill yn ariannu tîm o weithwyr proffesiynol gwella ysgolion i weithio gyda'r AALlau ac ysgolion i ddynodi a rhannu arferion gorau ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gref i seilio cyfeiriad polisi a gwerthuso allanol arni yn y dyfodol.

**'Iaith Pawb'**
Byddwn yn parhau i symud ystod eang o fesurau ymlaen i gefnogi'r Gymraeg o dan faner 'Iaith Pawb'—er enghraifft:

- hyfforddiant i 590 o ymarferwyr blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, mwy na phedair gwaith y nifer a ragwelwyd yn wreiddiol;
- gofynion y cynllun addysg sengl newydd sy'n golygu bod yn rhaid i AALlau adrodd am y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg; yr ydym wedi darparu arolwg enghreifftiol ar gyfer hynny;
- er mis Ebrill 2003 mae chwarae wedi dod yn rhan o Cymorth—y Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc. Un o'r themâu allweddol yn Cymorth yw 'chwarae, hamdden a chyfoethogi'. Drwy chwarae yr ydym wedi gallu helpu i hyfforddi staff a gwirfoddolwyr mewn sgiliau a gweithgareddau chwarae; darparu darpariaeth chwarae symudol mewn ardaloedd anghysbell yng nghefn gwlad Cymru neu ar stadau tai; a darparu gweithgareddau chwarae ar benwythnosau, hanner tymor a gwyliau ysgol;
- mae canllawiau Cymorth yn pennu bod yn rhaid i wasanaethau i Cymorth roi sylw llawn hefyd i ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i adeiladu cenedl ddwyieithog drwy 'Iaith Pawb'. Mae cynlluniau Cymorth nad ydynt yn dangos ymrwymiad yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r awdurdod. Mae'n bwysig bod anghenion ieithyddol y gymuned yn cael eu diwallu;
- mwy o arian i Mudiad Ysgolion Meithrin ac *athrawon bro* drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Drwy'r contract gyda Mudiad Ysgolion Meithrin (Cam wrth Gam) hyd yma, mae 201 ar Lefel 3 a 92 ar Lefel 2 wedi ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol. Hefyd, mae contract gyda Choleg y Drindod (Geiriau Bach) wedi darparu hyfforddiant lefel 4 i 148 o ymarferwyr. Nid yw canolfan iaith Gymraeg Mudiad Ysgolion Meithrin yng Nghaerdydd sy'n darparu cymorth ieithyddol i rieni ac ymarferwyr ar draws rhanbarth cyfan de-ddwyrain Cymru a chanolfan integredig newydd cyfrwng Cymraeg Mudiad Ysgolion Meithrin yn Aberystwyth ond dwy enghraifft;
- prosiectau trochi peilot lle mae nifer o fodelau'n cael eu treialu fel ffordd o alluogi disgyblion i symud o'r sector cyfrwng Saesneg i'r sector cyfrwng Cymraeg;
- adolygiad penodol o'r materion yn ymwneud â chynllunio darpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg i gael ei gynnal yn 2006-07;
- mae rhaglen gomisiynu i gomisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth o ansawdd uchel wedi cael ei sefydlu er 1994, ac ers uno Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gyda Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r deunyddiau hyn yn rhoi sylw i anghenion pynciau ar draws y cwricwlwm, i'r ystod oedran gyfan o dair i 19, ac i ddisgyblion o bob gallu;
- cynllun cyfnodau sabothol Cymraeg gwerth £2 filiwn i ymarferwyr sy'n dymuno dysgu, darlithio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- cynnydd sylweddol yn y nifer o gymwysterau sydd ar gael yn y Gymraeg;

- câi chwe chanolfan bwrpasol Cymraeg i Oedolion eu lleoli ym Mhrifysgol Cymru Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Prifysgol Cymru Abertawe, Prifysgol Morgannwg a Choleg Gwent;
- mae nifer gynyddol o fyfyrwyr AU yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae tystiolaeth bod ystod ehangach o bynciau'n cael eu cynnig i fyfyrwyr yn y Gymraeg. Yr wyf wedi symud y gwaith a wnaethpwyd gan grŵp llywio Andrew Green hyd yma ymlaen gyda chyllid ychwanegol o ryw £4 miliwn i fynd i'r afael â'r agenda hon o safbwynt y cyflenwad a'r galw. Ymgymerwyd ag astudiaeth annibynnol am yr opsiynau cyflenwi AU cyfrwng Cymraeg i'r dyfodol a disgwyliaf gael cyngor am hynny erbyn diwedd y flwyddyn.

**Deddf Plant 2004**

Mae Deddf Plant 2004 yn dod â dogfen bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' i rym. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion i Gymru a'n hymrwymiad i ddefnyddio'r Ddeddf i ddatblygu gwasanaethau mwy effeithiol i blant yng Nghymru. Mae'r darparu ar gyfer cydweithredu statudol rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid i wella lles plant a phobl ifanc, gwaith yr wyf fi'n arwain arno, a sefydlu byrddau lleol diogelu plant fel rhan o bortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal, mae wedi darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan bortffolio'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

**Deddf Gofal Plant 2006**

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o ofal plant i ddiwallu anghenion rhieni yn eu hardal. Wrth wneud hynny, mae'n ofyniad penodol yn y Ddeddf bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhoi sylw i anghenion rhieni yn yr ardal am ofal plant sy'n defnyddio'r Gymraeg. Yr wyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y galw a'r sialensiau i ofal plant cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae siaradwyr Cymraeg yn lleiafrif. Caiff yr argymhellion eu cymryd i ystyriaeth wrth adolygu canllawiau Cymorth ar gyfer 2007-08, ac wrth lunio'r canllawiau statudol a fydd yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth newydd.

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael ei dreialu yn awr ar lefel 2 (canolradd) a lefel 3 (uwch) o'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol mewn darpariaeth ôl-16 mewn 31 o ysgolion a cholegau. O fis Medi 2006 mae model lefel 1 (sylfaen) hefyd yn cael ei dreialu ochr yn ochr â'r model canolradd mewn darpariaeth 14-19 mewn 18 o ganolfannau.

Rhyddhawyd canlyniadau diploma uwch ail garfan bagloriaeth Cymru ar 17 Awst. Cwblhaodd 632 (79 y cant o'r 800 o fyfyrwyr a ymgeisiodd) ddiploma uwch bagloriaeth Cymru. Cwblhaodd 550 o ymgeiswyr y dystysgrif graidd lawn yn llwyddiannus (87 y cant o'r rhai a orffennodd) ac enillodd 483 o ymgeiswyr (76 y cant) ddiploma uwch llawn bagloriaeth Cymru. Enillodd yr 82 o ymgeiswyr na chawsant y dystysgrif graidd dri chymhwyster sgil allweddol yr un ar gyfartaledd.

Yr elfennau allweddol o ganlyniadau lefel ganolradd haf 2006 yw bod 263 o fyfyrwyr hyd yma wedi cwblhau diploma canolradd bagloriaeth Cymru ar ôl blwyddyn o astudio. Cofrestrodd 722 ym mis Chwefror 2006. Mae hyd at 211 o fyfyrwyr wedi gohirio tan 2006-07 cyn cwblhau. Mae 206 (78 y cant) o'r myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen wedi ennill y dystysgrif graidd ac mae 167 (63 y cant) wedi ennill diploma canolradd llawn bagloriaeth Cymru. Enillodd y 57 o ymgeiswyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen, ond heb gael y dystysgrif graidd, dri chymhwyster sgil allweddol yr un ar gyfartaledd.

**Llwybrau Dysgu 14-19**

Mae darparu gwell opsiynau a chyfleoedd i bobl ifanc yn golygu mwy o gydweithio rhwng partneriaid yn cynnwys ysgolion, colegau a darparwyr gwasanaethau eraill. Mae ein canllawiau ar y 'Llwybrau Dysgu 14-19' a'n polisïau Ymestyn Hawliau eisoes yn dwyn ffrwyth yn nhermau datblygu trefniadau gweithio drwy bartneriaeth ac ar sail rhwydweithiau er mwyn symud y cynlluniau cyflenwi ymlaen a darparu cyfle a dewis gwirioneddol i bobl ifanc ledled Cymru. Bydd chwe elfen allweddol y Llwybrau Dysgu yn

sicrhau, dros amser, bod pob dysgwr 14-19 yn cael y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n diwallu eu hanghenion orau.

**Cynlluniau braenaru**

Diben y prosiectau braenaru daearyddiaeth yw cefnogi'r agenda bolisi a nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' a'r Llwybrau Dysgu 14-19. Maent yn ceisio archwilio sut y gallwn greu rhwydweithiau dysgu effeithiol ac effeithlon sydd â'r gallu i ddiwallu anghenion a disgwyliadau dysgwyr. Mae'r cynllun gweithredu 14-19 yn nodi ein bwriad i sefydlu adolygiadau braenaru ym mhob ardal erbyn 2010. Wrth wneud hyn yr ydym yn cydnabod ac yn gobeithio adeiladu ar y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan randdeiliaid, gan ddefnyddio arian sydd ar gael o'r gronfa fuddsoddi gyffredin.

Mae'r prosiectau braenaru daearyddiaeth wedi cael eu croesawu'n eang gan randdeiliaid, ac maent wedi helpu i ddod â phartïon ynghyd i weithio ar atebion gwirioneddol a all ateb yr agenda heriol yr ydym wedi ei gosod i addysg a hyfforddiant ôl-16.

O ran cynlluniau braenaru sectoraidd, mae gofal cymdeithasol ac adeiladu yn ddau faes i ganolbwyntio arnynt. Byddwn yn edrych ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ymgynghori ynglŷn ag anghenion y sector gofal cymdeithasol i ganfod camau gweithredu a blaenoriaethau er mwyn datblygu darpariaeth ddysgu a fydd o gymorth i'r sector pwysig hwn.

Mae ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru a datblygu cytundeb sgiliau sector y CITB-Sgiliau Adeiladu wedi tanlinellu pwysigrwydd adeiladu fel elfen allweddol yn economi Cymru. Ar y cyd â'r Adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, byddwn yn lansio strategaeth swyddi, sgiliau a chymorth busnes i'r sector adeiladu.

**Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**

Yr ydym yn ailstrwythuro hyfforddiant cychwynnol athrawon fel y gall ddarparu athrawon sydd â statws athro cymwysedig a fydd yn diwallu anghenion ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn well. Yr ydym hefyd yn dal i gynnig ystod o gymhellion gyda'r nod o ddenu'r myfyrwyr o'r safon uchaf, mwyaf ymroddgar, i hyfforddi a dysgu yng Nghymru.

Yr ydym wedi sefydlu cynllun newid hyfforddiant cychwynnol athrawon i ailstrwythuro hyfforddiant cychwynnol athrawon fel bod y targedau derbyn, y cyrsiau ac argaeledd cyrsiau yn gallu darparu athrawon sydd â statws athro cymwysedig, sy'n diwallu anghenion ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn well.

**Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth**

Yr ydym yn mynd i'r afael â phroblemau sgiliau isel ymysg oedolion ac yn hyrwyddo datblygu sgiliau lefel uwch i gynnal economi gynaliadwy, gref. Mae'r ail gynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth yn ein helpu i wneud cynnydd gwirioneddol yn symud y cynllun gweithredu ymlaen i fynd i'r afael â'r sialensiau sy'n ein hwynebu o ran sgiliau a chyflogaeth.

Mae'r cynllun yn darparu fframwaith strategol i bolisïau a rhaglenni er mwyn gwella lefelau sgiliau a helpu rhagor o bobl i gael cyflogaeth gynaliadwy.

**Dysgu Seiliedig ar Waith**

Yr ydym ni yng Nghymru ar flaen y gad o ran arloesi, gan ein bod wedi dileu cyfyngiadau oedran ac wedi cyflwyno'r diploma sgiliau modern sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth ar lefel 4 NVQ. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda'r cynghorau sgiliau sector i ddatblygu llwybrau dysgu newydd sy'n canolbwyntio ar waith a fydd yn galluogi pobl ifanc i gyfuno dysgu yn yr ysgol gyda dysgu yn y gweithle ac i symud ymlaen yn gyflym at brentisiaeth fodern.

**Anghenion Pobl nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant**

Ym mis Ionawr 2005 cyhoeddasom gynllun gweithredu byr i fynd i'r afael â sefyllfa sy'n golygu bod tua 12 y cant o'n pobl ifanc 16 a 17 oed nad ydynt mewn cyflogaeth nac addysg neu hyfforddiant.

Gwnaethpwyd ymchwil pellach ac yr ydym yn y broses o lunio dull cynhwysfawr o ymdrin â'r mater pwysig hwn. Ein nod yw gwneud defnydd llawn o arian Ewropeaidd wrth symud hyn ymlaen.

**System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol**
Yn dilyn dyraniadau 2005-06 a 2006-07 i'r AALlau a'r sefydliadau AB, ymgymerodd y swyddogion â chyfnod oedi ac adolygu i adolygu effaith y system gynllunio ac ariannu ar y naill sector a'r llall. Ymysg yr eitemau a adolygwyd yr oedd materion y dylanwadwyd arnynt gan Fforwm a chydweithwyr o'r AALlau yn ogystal â gwaith mireinio arferol. Mae'r newidiadau perthnasol wedi cael eu cyfleu i'r sectorau ac, o ganlyniad, mae gwybodaeth gynllunio'r sefydliadau AB a tharged cyllido 2006-07 wedi cael eu newid i adlewyrchu'r newidiadau yn y model.

**Swyddogaethau Cymorth i Fyfyrwyr**
Trosglwyddodd y swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 o'r Adran Addysg a Sgiliau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan ddod i rym o 1 Medi 2006. Yr ydym yn y broses o ddirprwyo rhai swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr yn ffurfiol i'n partner cyflenwi—awdurdodau lleol Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Yr ydym eisoes wedi gwneud ymrwymiadau sylweddol a fydd yn gwella'r cymorth i ddysgwyr yng Nghymru, yn cynnwys Grantiau Dysgu'r Cynulliad, lwfansau cynhaliaeth addysg a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**Addysg Uwch—Ehangu Mynediad**
Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth allweddol yn fy strategaeth addysg uwch i Gymru, 'Ymgeisio yn Uwch', ac mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn perfformio'n well na chyfartaleddau'r DU yn gyson o ran denu cymysgedd cymdeithasol eang o fyfyrwyr, llawer ohonynt yn cael eu tangynrychioli mewn AU. Hyd yma, mae Cymru wedi bod ar flaen y gad, yng nghyd-destun y DU, o ran cynyddu cyfranogiad o blith grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Fel rhan o'r agenda ehangu mynediad, sefydlwyd pedair partneriaeth 'Ymgyrraedd yn Ehangach' yn 2003 i weithio'n benodol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r partneriaethau'n ymwneud ag ystod eang o brosiectau sydd wedi'u bwriadu i hyrwyddo addysg uwch i'r rheini nad oes gan eu teuluoedd a'u cymunedau unrhyw draddodiad o fynd i'r brifysgol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido ysgolion bach yng Nghymru? (WAQ47868)

**Jane Davidson:** Mae cyllid i ysgolion yng Nghymru yn cael ei ddarparu'n bennaf ar sail heb ei neilltuo drwy setliad refeniw llywodraeth leol. Mae'r awdurdodau addysg lleol yn dosbarthu cyllid i ysgolion yn unol â'u fformiwla gyllido leol, sy'n cydnabod amgylchiadau lleol. Gall yr AALlau ddarparu cyllid ychwanegol i ysgolion bach drwy ffactorau priodol yn eu fformiwla gyllido, ac mae llawer ohonynt yn gwneud hynny. Er 2002-03 yr ydym ni hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion bach at ddibenion arloesi a chydweithio, defnydd cymunedol o safleoedd ysgolion a chymorth i benaethiaid sy'n dysgu. Yn 2006-07, mae cyfanswm o £4.1 miliwn ar gael.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bwlch rhwng nifer y disgyblion sy'n gymwys i gofrestru i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru a'r nifer sydd mewn gwirionedd yn cofrestru i'w cael? (WAQ47870)

**Jane Davidson:** Mae'r cyfrifiad ysgolion blynyddol yn casglu manylion am ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (lle maent yn hysbys i'r ysgol neu'r AALl). Nid yw'r nifer o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim ond nad ydynt yn cofrestru yn hysbys.

Mae prydau ysgol a darparu prydau ysgol am ddim yn arbennig yn agwedd bwysig o strategaeth gwrthdlodi Llywodraeth y Cynulliad. Mewn ardaloedd difreintiedig, lle mae'r mwyafrif o brydau am ddim, y rhain sy'n pennu'r ansawdd ar gyfer y gwasanaeth cyfan.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod deiet da yn bwysig o ran perfformiad yn yr ysgol ac iechyd ac yr ydym yn benderfynol o helpu i sicrhau, cynnal a gwella iechyd ein plant a'n pobl ifanc drwy edrych ar fwyd a maeth drwy agwedd ysgol gyfan. Lansiwyd 'Blas am Oes', sef adroddiad gweithgor bwyd mewn ysgolion Llywodraeth y Cynulliad, i'r diben o ymgynghori â'r cyhoedd ar 29 Mehefin ac mae'n cynnwys 41 o gynigion am sut y gallwn barhau i wella'r bwyd sy'n cael ei gynnig yn ein hysgolion. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Hydref 2006.

Mae Cynnig 23 o 'Blas am Oes' yn argymell y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol:
- anelu at gael pawb sydd â hawl i brydau ysgol am ddim i fanteisio arnynt; a
- chynnal ymgyrch farchnata egniol i sicrhau bod cynifer â phosibl o ddisgyblion yn manteisio ar brydau ysgol erbyn diwedd y cyfnod gweithredu (2009 mewn ysgolion cynradd a 2010 mewn ysgolion uwchradd).

Byddwn yn archwilio canlyniad yr ymgynghoriad hwn ac yng ngoleuni hynny byddwn yn cynhyrchu cynllun gweithredu y gwanwyn nesaf i roi'r cynigion hyn ar waith.

**Michael German:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i AALlau ynghylch cyflwyno systemau taenellu mewn ysgolion a adeiladwyd o'r newydd a rhai a foderneiddiwyd? (WAQ47871)

**Jane Davidson:** Mae rheoliadau adeiladu mewn grym yng Nghymru a Lloegr ac maent yn bodoli i sicrhau iechyd a diogelwch pobl mewn adeiladau ac yn eu cyffiniau.

Mae rhan B o'r rheoliadau yn cyfeirio at ddiogelwch rhag tân ac maent yn gymwys i unrhyw adeiladau ysgol newydd, cynlluniau ailwampio mawr ac estyniadau. Mae'r darpariaethau yn y rheoliadau adeiladu yn ymdrin ag amryw o agweddau diogelwch rhag tân, er enghraifft:
- sicrhau dihangfa o safon ddigonol i bobl pe ceid tân mewn adeilad;
- atal y tân rhag lledaenu dros leininau mewnol adeiladau;
- sicrhau sefydlogrwydd adeiladau pe ceid tân;
- sicrhau bod darpariaeth gwahanu tân ddigonol mewn adeiladau; ac
- atal tân a mwg rhag lledaenu heb i neb eu gweld mewn lleoedd gwag cudd mewn adeiladau.

Cyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol unigol yw ystyried gosod systemau taenellu ochr yn ochr â'r holl faterion eraill diogelwch rhag tân mewn ymgynghoriad â'u swyddogion tân lleol.

Mae pwyllgor diogelwch tân cymunedol wedi cael ei sefydlu i gynghori Llywodraeth y Cynulliad am faterion yn ymwneud â diogelwch rhag tân. Mae'r pwyllgor wrthi ar hyn o bryd yn ystyried strategaeth ddrafft i Gymru ar danau bwriadol, sy'n cynnwys argymhellion am systemau taenellu mewn ysgolion, gan fod tystiolaeth yn dangos bod y mwyafrif o danau mewn ysgolion yn danau bwriadol. Unwaith y bydd wedi cael ei chymeradwyo gan y pwyllgor caiff y strategaeth ei chyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad i'w chymeradwyo a bydd yn sylfaen wedyn i fynd i'r afael â phroblem tanau bwriadol yng Nghymru yn y dyfodol.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflogi cynorthwywyr ystafell dosbarth ar gontractau tymor? (WAQ47872)

**Jane Davidson:** Mater i'r awdurdodau lleol a'u hysgolion yw cyflogi staff cymorth mewn ysgolion. Fodd bynnag, gwn fod yr awdurdodau lleol yn gweithio ar adolygiadau 'statws sengl' lle maent yn edrych ar gyflogau a chyfrifoldebau staff cymorth mewn ysgolion i sicrhau eu bod yn briodol i'r rolau y maent yn eu llenwi a'u bod yn cymharu â chyflogau a chyfrifoldebau aelodau staff eraill sy'n gwneud gwaith o werth cydradd yn yr awdurdod lleol.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau arholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn? (WAQ47873)

**Jane Davidson:** Mae ein myfyrwyr TGAU a'n myfyrwyr bagloriaeth Cymru (canolradd) i'w llongyfarch ar eu canlyniadau rhagorol ac mae ganddynt pob rheswm i ddathlu.

Gyda chymorth athrawon a rhieni mae ein myfyrwyr wedi profi unwaith eto bod Cymru yn wir yn wlad sy'n dysgu. Nid yn unig yr ydym wedi rhagori ar ein perfformiadau gorau blaenorol ond mae ein canlyniadau TGAU yng Nghymru yn cymharu'n dda â Lloegr a Gogedd Iwerddon, yr ydym yn rhannu'r fframwaith cymwysterau gyda hwy.

Yr wyf yn neilltuol o falch bod y gyfradd lwyddo TGAU drwyddi draw ar raddau A* i G, y ganran a enillodd A* i C ac A* i A i gyd yn uwch na'r llynedd. Yr oedd y canlyniadau o ran diploma canolradd bagloriaeth Cymru hefyd yn dda iawn—enillodd 63 y cant o'r ymgeiswyr ddiploma canolradd bagloriaeth Cymru yn llawn a chwblhaodd 78 y cant ohonynt y dystysgrif graidd ganolradd yn llwyddiannus

Mae'r cyfraddau llwyddo TGAU mewn Saesneg a mathemateg wedi parhau i wella fel y mae'r perfformiad ym mhob un o'r gwyddorau unigol a'r dyfarniad gwyddoniaeth dwbl.

Mae'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud yn golygu bod myfyrwyr yng Nghymru yn gynyddol yn gallu dewis llwybrau dysgu sy'n gweddu i'w diddordebau, eu dulliau dysgu a'u gallu ond sydd hefyd yn sicrhau eu bod yn barod i barhau â'u dysgu, boed hynny yn yr ysgol, y coleg neu'r gweithle. Mae ein ffocws ar sgiliau yng Nghymru eisoes yn talu ar ei ganfed a dangosir hynny gan y ffaith bod 16 y cant o'r dyfarniadau sgiliau allweddol yn cael eu gwneud i fyfyrwyr yng Nghymru.

Mae poblogrwydd cynyddol bagloriaeth Cymru yn cael ei atgyfnerthu o'r mis hwn pan fydd y peilot yn ymestyn i gynnwys lefelau canolradd a sylfaen yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn yn dynodi cam pwysig arall tuag at y Llwybrau Dysgu 14-19 yr ydym yn eu datblygu. Mae'r myfyrwyr lefel ganolradd ôl-16 cyfredol wedi llwyddo i gwblhau llawer iawn mewn amser byr. Am flwyddyn yn unig y mae llawer wedi dilyn rhaglen bagloriaeth Cymru a gallant fod yn falch iawn o'r hyn y maent wedi ei gyflawni.

Dim ond y dechrau yw'r canlyniadau hyn a gobeithiaf y bydd myfyrwyr yn eu defnyddio i fynd ymlaen i addysg bellach, addysg uwch, hyfforddiant a chyflogaeth i helpu i sicrhau bod Cymru yn wlad lewyrchus a llwyddiannus sy'n dysgu—ac i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyheadau personol hwy hefyd.

Gall ein myfyrwyr Safon Uwch ar draws Cymru fod yr un mor falch o'u llwyddiant yn yr arholiadau eleni. Unwaith eto mae gwaith caled ac ymroddiad myfyrwyr ac athrawon a chefnogaeth rhieni wedi cael eu gwobrwyo â chanlyniadau rhagorol.

Mae'r canlyniadau Safon Uwch yn benllanw dwy flynedd o astudio ymroddgar ac i lawer mae'n rhagflaenu dechrau astudio pellach yn y brifysgol, y coleg neu drwy addysg gysylltiedig â gwaith. I fyfyrwyr Uwch Atodol byddant yn sylfaen i lawer ohonynt barhau i astudio hyd at Safon Uwch.

Gall myfyrwyr ymfalchïo'n haeddiannol yn eu llwyddiant. Mae'r gyfradd lwyddo drwyddi draw ar raddau A i E bron yn 97 y cant erbyn hyn, a llwyddir gyda gradd A mewn bron i 24 y cant o'r pynciau yr ymgeisir ynddynt.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi gwaith rhagorol pawb sy'n ymwneud ag adeiladu ar ein perfformiad uchel ar hyn o bryd yn unol â'n gweledigaeth o Gymru fel gwlad sy'n dysgu.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan (a) faint o arian a ddyrannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y cynllun brecwast ysgol am ddim ym mhob blwyddyn er 2003 a (b) cyhoeddi'r gost, fesul disgybl, o ddarparu brecwast ysgol am ddim? (WAQ47879)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu'r symiau canlynol ar gyfer y cynllun brecwast ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd:

| | |
|---|---|
| 2004-05 | £1.5 miliwn |
| 2005-06 | £3.5 miliwn |
| 2006-07 | £5.5 miliwn |
| 2007-08 | £10 miliwn |
| 2008-09 | £10 miliwn |

Mae'r holl gostiadau yr ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer y cynllun ar gael ar wefan y cynllun brecwast ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd ar http://urlcutter.com/healthybreakfast. Datblygwyd y ffigurau hyn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

Nid yw'r fformiwla i ddyrannu cyllid i'r cynllun hwn ar sail y gost fesul disgybl ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau sydd ar gael i'r ysgolion i weithredu'r cynllun brecwast ysgol am ddim yn nodi'r cyllid sydd ar gael i wahanol elfennau o'r cynllun, er enghraifft bwyd a goruchwyliaeth.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddi dysgu gwag a'r swyddi dysgu sydd wedi'u llenwi sydd yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ47882)

**Jane Davidson:** Mae'r wybodaeth yn y tabl isod. Ar gyfer yr ateb hwn mae'r Canolbarth a'r Gorllewin wedi cael eu diffinio fel awdurdodau lleol Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae swyddi ym mhob ysgol feithrin, gynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir wedi cael eu cynnwys. Nid yw athrawon llanw wedi cael eu cynnwys. Mae'r ffigurau'n cyfeirio at y sefyllfa fel yr oedd ar ddiwrnod y cyfrifiad ysgolion ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Swyddi dysgu sydd wedi'u llenwi a swyddi gwag yn y Canolbarth a'r Gorllewin

| | **2005** | **2006** |
|---|---|---|
| **Swyddi amser llawn wedi'u llenwi** | 4,315 | 4,278 |
| **Swyddi rhan-amser wedi'u llenwi** | 830 | 883 |
| **Cyfanswm y swyddi wedi'u llenwi** | 5,145 | 5,161 |
| **Swyddi gwag** | 20 | 26 |

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr athrawon newydd gymhwyso sydd wedi gadael Cymru i ddysgu mewn rhan arall o'r DU? (WAQ47883)

**Jane Davidson:** Mae canlyniadau arolwg yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch o ben y daith i'r rhai sy'n gadael addysg uwch yn dangos, o'r athrawon newydd gymhwyso yn 2004-05 a oedd wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru ac sydd mewn swyddi dysgu, bod 29 y cant o'r rhai a enillodd TAR a 24 y cant o'r rhai a oedd wedi ennill gradd gyntaf mewn swyddi dysgu yn y DU y tu allan i Gymru.

**Lisa Francis:** Faint o bobl yng Nghymru sydd wedi cwblhau hyfforddiant athrawon ym mhob blwyddyn er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog rannu'r ffigurau yn ôl pob ardal Cyngor Sir? (WAQ47884)

**Jane Davidson:** Dangosir y wybodaeth a geisir yn y tablau isod. Myfyrwyr yn byw yng Nghymru yn cwblhau hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU yn ôl AALl eu cartref gwreiddiol a'u blwyddyn gwblhau (a)

| | **1998-99** | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **2004-05** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 65 | 50 | 40 | 60 | 60 | 60 | 45 |
| Gwynedd | 110 | 95 | 115 | 100 | 85 | 95 | 105 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Conwy | 55 | 70 | 55 | 60 | 90 | 70 | 65 |
| Sir Ddinbych | 70 | 50 | 50 | 45 | 45 | 60 | 55 |
| Sir y Fflint | 70 | 60 | 75 | 80 | 75 | 75 | 95 |
| Wrecsam | 55 | 60 | 45 | 70 | 75 | 80 | 65 |
| Powys | 100 | 60 | 75 | 70 | 70 | 85 | 65 |
| Ceredigion | 75 | 55 | 55 | 55 | 55 | 85 | 65 |
| Sir Benfro | 70 | 75 | 65 | 80 | 60 | 85 | 75 |
| Sir Gaerfyrddin | 125 | 130 | 130 | 160 | 160 | 145 | 160 |
| Abertawe | 180 | 165 | 175 | 180 | 180 | 195 | 175 |
| Castell-nedd Port Talbot | 100 | 80 | 95 | 80 | 75 | 85 | 90 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 90 | 70 | 80 | 85 | 85 | 80 | 110 |
| Bro Morgannwg | 120 | 65 | 80 | 75 | 70 | 70 | 85 |
| Rhondda Cynon Taf | 140 | 135 | 130 | 145 | 140 | 150 | 130 |
| Merthyr Tudful | 30 | 20 | 30 | 30 | 30 | 25 | 30 |
| Caerffili | 105 | 105 | 70 | 95 | 110 | 95 | 95 |
| Blaenau Gwent | 25 | 20 | 25 | 35 | 30 | 20 | 25 |
| Tor-faen | 75 | 55 | 35 | 45 | 45 | 50 | 50 |
| Sir Fynwy | 75 | 65 | 75 | 60 | 65 | 75 | 65 |
| Casnewydd | 80 | 65 | 85 | 70 | 65 | 85 | 80 |
| Caerdydd | 195 | 185 | 270 | 220 | 260 | 270 | 270 |
| **Y cyfan (b)** | **2,025** | **1,750** | **1,905** | **1,910** | **1,950** | **2,055** | **2,025** |

Mae’r ffigurau uchod yn cynrychioli’r nifer o Gymru a gymhwysodd ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon o sefydliadau ar hyd a lled y DU. Mae’r ffigurau isod yn dangos cyfanswm y rhai a gymhwysodd o sefydliadau Cymru.

| | **1998-99** | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **2004-05** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2,330 | 1,960 | 2,085 | 2,065 | 2,115 | 2,110 | 2,105 |

Ffynhonnell: HESA.
(a) Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu i’r pump agosaf. Oherwydd y talgrynnu efallai na fydd y rhesi’n adio i’r cyfanswm a ddangosir.
(b) Yn cynnwys myfyrwyr sy’n byw yng Nghymru lle nad yw’r AALl yn hysbys.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru’r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47894) ***Trosglwyddwyd i’w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ47898.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pam bod eich adran wedi gwrthod cymeradwyo menter newydd Pwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd i gyhoeddi Testament Newydd dwyieithog gan ddefnyddio testun diwygiedig y BCN a’r Fersiwn Safonol Saesneg fel adnodd hanfodol i’r rheiny sy’n astudio’r Ysgrythurau ar gyrsiau TGAU a Safon Uwch mewn ysgolion a cholegau addysg bellach? (WAQ47904)

**Jane Davidson:** Nid yw’n arfer gennym gymeradwyo deunyddiau nad ydynt wedi cael eu comisiynu’n benodol. O ran cyrsiau TGAU a Safon Uwch, mater i’r ysgolion a’r colegau yw dewis adnoddau i’w helpu i gynnal y cyrsiau a ddewisir, ac eithrio mewn achosion lle mae’r cyrff dyfarnu yn pennu testunau penodol i’w hastudio. Mewn achosion felly, cyfrifoldeb y cyrff dyfarnu yw pennu’r testunau.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu rhianta? (WAQ47914)

**Jane Davidson:** Cyhoeddwyd ein cynllun gweithredu rhianta ym mis Rhagfyr 2005. Mae'n nodi'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau bod rhieni yng Nghymru yn cael y cyngor a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i fagu eu plant yn hyderus. Caiff adroddiad cynnydd llawn ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47896) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ47898.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw dystiolaeth y mae wedi ei hystyried o astudiaethau y tu allan i Gymru sy'n dangos nifer fawr o achosion TB mewn gwartheg mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion o TB buchol wedi cael eu gweld ymysg bywyd gwyllt? (WAQ47974)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Fel yr wyf wedi ei gwneud yn glir, yr wyf wedi ymrwymo i ymdrin â datblygu polisi a gwneud penderfyniadau ynglŷn â TB buchol ar sail tystiolaeth. Byddaf, felly, yn parhau i ystyried tystiolaeth wyddonol a thystiolaeth arall sy'n cael ei darparu gan ystod o gyrff, yn cynnwys y grŵp gwyddonol annibynnol TB mewn gwartheg, a hefyd gan ffynonellau eraill o'r tu mewn a'r tu allan i Gymru. Mae grŵp gweithredu TB Cymru hefyd yn gyfrifol am fonitro hynt wyddonol y clefyd a bydd yn rhoi cyngor imi ynglŷn â'r mesurau y gallai Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i fynd i'r afael â TB buchol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwella gwasanaethau cyhoeddus yn y Gogledd? (OAQ47851)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Adroddodd y Prif Weinidog am welliannau yn y gwasanaethau cyhoeddus yn ei adroddiad blynyddol 2006. Er enghraifft, mae'r nifer o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru wedi cynyddu ac mae'r amseroedd aros wedi gostwng yn sylweddol.

Yn ogystal â hyn yr ydym wedi cefnogi cyflenwi gwasanaethau i'r Gogledd gan ddarparu rhyw £790 miliwn o arian Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2006-07, cynnydd o 4.8 y cant.

Mae 'Cyflawni'r Cysylltiadau', ein cynllun gweithredu pum mlynedd, hefyd yn gyrru'r newidiadau yr ydym am eu gweld yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu datblygu a'u cyflenwi ymlaen.

Fel rhan o'r cynllun hwn, comisiynwyd Syr Jeremy Beecham gennym i gynnal adolygiad o'r ffordd y cyflenwir gwasanaeth cyhoeddus lleol. Yr ydym wedi croesawu'r adolygiad hwnnw a byddaf yn cyhoeddi ymateb yn yr hydref, a fydd yn amlinellu sut y bwriadwn symud ein hagenda i ddiwygio'r gwasanaethau cyhoeddus ymlaen.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes Llywodraeth leol yn Nwyrain Casnewydd? (WAQ7852)

**John Griffiths:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi eu cymryd i gefnogi Dwyrain Casnewydd wrth iddo geisio gwella’r gwasanaethau lleol y bu’n eu darparu er 2003? (WAQ47853)

**Sue Essex:** Mae’n anodd asesu effaith polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lwyddiannau llywodraeth leol mewn ardaloedd megis etholaethau Cynulliad nad ydynt yn cyd-fynd â ffiniau awdurdodau lleol. Gwasanaethir y rhan helaethaf o etholaeth Dwyrain Casnewydd gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Cwblheais gytundeb polisi gyda Chyngor Dinas Casnewydd ym mis Medi 2004, ac mae’r cytundeb hwn yn nodi’r gwelliannau y mae’r cyngor wedi cytuno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd yn eu cyflawni erbyn 2007. Yr oedd perfformiad y cyngor yn 2005-06 yn gryf iawn, ac yr ydym eisoes wedi talu ei grant cymell perfformiad am 2006-07 o £1,475,102.

Mae’r cyngor wedi gwneud gwelliannau hynod yn y meysydd canlynol:

Mae Casnewydd wedi cyrraedd y targedau i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd (90.06 y cant) a lleihau’r nifer o blant sy’n gadael yr ysgol heb gymhwyster (1.61 y cant).

Plant yng ngofal yr awdurdod lleol: mae Casnewydd wedi perfformio’n dda iawn gyda’r mesurau hyn ac mae’n un o nifer fach o awdurdodau lleol sydd wedi cyrraedd ei gerrig milltir gwella yn y tri maes:

- plant sy’n derbyn gofal sydd â chynlluniau gofal: cyrhaeddodd Casnewydd 98.7 y cant, sef y pumed perfformiad gorau yng Nghymru;
- plant sy’n derbyn gofal sydd â chynlluniau sefydlogrwydd: rhagorodd Casnewydd ar ei garreg filltir o 75 y cant, gyda pherfformiad cryf o 92.86 y cant;
- plant sy’n derbyn gofal sy’n gorfod newid ysgol: Casnewydd oedd y pedwerydd orau yng Nghymru, gyda pherfformiad o 7.4 y cant.

Mae Casnewydd wedi gwneud cynnydd da yn gostwng y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal, gan ddechrau o linell sylfaen o 34 a chyrraedd 12.12 fesul 1000 o boblogaeth 75 oed a throsodd.

Mae’r nifer o bobl hŷn sydd wedi cael cymorth i fyw gartref wedi cynyddu o 94 i 140.70 fesul 1,000 o boblogaeth 65 oed a throsodd, sef y perfformiad trydydd orau yng Nghymru.

Mae Casnewydd wedi gwella effeithlonrwydd ynni yn ei adeiladau cyngor drwy sicrhau gostyngiad o 3.07 y cant yn yr ynni a ddefnyddir ac mae wedi sicrhau gostyngiad o 5.30 y cant yn yr ynni a ddefnyddir yn ei stoc dai.

Ailgylchodd Casnewydd 27.12 y cant o’i wastraff domestig yn 2005-06, gan ragori o lawer ar ei garreg filltir o 21 y cant.

Mae Casnewydd hefyd wedi rhagori’n sylweddol ar ei garreg filltir o ran dechrau busnesau gan sicrhau 86 (carreg filltir 80), ac 16 (carreg filltir 15) o fusnesau wedi cael eu sefydlu gan bobl o leiafrifoedd ethnig.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynghorau tref a chymuned yng Nghymru? (WAQ47857)

**Sue Essex:** Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn gwella’r gyfundrefn llywodraeth leol drwyddi draw ac yn dod â manteision pwysig i’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn o arwyddocâd arbennig yn awr gan mai blaenoriaeth bennaf Llywodraeth y Cynulliad yw gwella gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd i ddod.

Mae canolbwyntio ar ddinasyddion a chydweithio â hwy yn ganolog i'n dull gweithredu ac yr ydym yn glir mai'r dull hwn sy'n cyd-fynd orau â maint, gwerthoedd ac agweddau Cymru.

O fewn yr agenda hon, mae cynghorau cymuned a thref yn nes at yr etholwyr nag unrhyw haen arall o lywodraeth. Mae hyn yn golygu bod ganddynt lawer o ffyrdd uniongyrchol o ganfod a chyflawni blaenoriaethau dinasyddion a chymunedau o ran gwasanaethau, ymgysylltu a gweithgareddau. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Syr Jeremy Beecham am ei adolygiad o gyflenwi gwasanaethau lleol, 'Ar Draws Ffiniau', yn argymell y dylai awdurdodau lleol gysylltu â chynghorau cymuned fel eiriolwyr dinasyddion a darparwyr gwasanaethau lle mae'r gallu ganddynt i gyflawni'r rolau hyn. Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad yr adolygiad hwn y llynedd fel rhan o'r cynllun gweithredu i roi ein strategaeth 'Creu'r Cysylltiadau' ar waith a byddwn yn cyhoeddi ein hymateb yn ddiweddarach eleni.

Edrychaf ymlaen at weld ein cynghorau cymuned a thref yn dal i wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at ansawdd bywyd eu cymunedau ac at agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Swyddfa Gartref i sicrhau na fydd yr arian sydd eisoes wedi'i wario ar ymgynghoriadau ynghylch uniad arfaethedig heddluoedd Cymru yn cael ei basio ymlaen i dalwyr y dreth gyngor? (WAQ47858)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref; mater i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yw hwn.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei phortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47898)

**Sue Essex:** Nid yw'r wybodaeth a geisir yn cael ei dal yn y fformat hwn ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid casglu'r wybodaeth ynghyd o nifer o ffynonellau a sawl maes o'r Cynulliad, yn cynnwys yr hen gyrff a noddid gan y Cynulliad. Bydd y wybodaeth ar gael yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Hydref 2006. Gofynnwyd i gyrff a noddir gan y Cynulliad ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth a geisiwyd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ47919)

**Sue Essex:** Mae **'**Creu'r Cysylltiadau', ein cynllun gweithredu pum mlynedd, yn gyrru'r newidiadau yr ydym am eu gweld yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu datblygu a'u cyflenwi yn eu blaen.

Fel rhan o'r cynllun hwn, comisiynwyd Syr Jeremy Beecham gennym i gynnal adolygiad o'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus lleol eu cyflenwi. Yr ydym wedi croesawu argymhellion yr adolygiad hwnnw a byddaf yn cyhoeddi ymateb yn yr hydref a fydd yn amlinellu sut y bwriadwn symud ein hagenda o ran diwygio gwasanaethau cyhoeddus ymlaen.

**Glyn Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau nad yw cwmnïau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru yn cael mantais annheg dros fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, wrth chwilio am fusnes gyda'r sector cyhoeddus? (WAQ47962)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gefnogwr cryf i fusnesau Cymru, sy'n elwa o nifer o gynlluniau sy'n eu helpu i gystadlu ar faes chwarae gwastad am gontractau sector cyhoeddus. Nid yw'r cynlluniau hyn ar gael i fusnesau sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Ymysg y cynlluniau hyn mae:

- y prosiect i ddatblygu cyflenwyr lleol, sy'n helpu cyflenwyr o Gymru i dendro am fusnes gan y sector cyhoeddus;
- yn ddiweddar datblygodd a lansiodd y tasglu caffael busnes, o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, 'Opening Doors—The Charter for SME Friendly Procurement' i wella mynediad at gyfleoedd yn y sector cyhoeddus i gyflenwyr llai, mwy lleol;
- mae is-grŵp o'r tasglu caffael busnes, menter Cymru o blaid partneriaethau caffael, yn gweithio i ddynodi 'bylchau cyflenwi' lle nad yw cwmnïau o Gymru ar hyn o bryd yn ennill cymaint o fusnes gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ag y dylent.

**Glyn Davies:** Pa archwiliadau a rheoliadau sydd ar waith i sicrhau bod cwmnïau a busnesau sy'n tendro am gontractau sector cyhoeddus yng Nghymru yn ariannol hyfyw? (WAQ47963)

**Sue Essex:** Mater i bob awdurdod contractio ar draws sector cyhoeddus Cymru yw hwn. Fodd bynnag, mae 'Opening Doors—The Charter for SME Friendly Procurement', mewn ymgais i helpu cwmnïau bach a chanolig eu maint i ennill mwy o fusnes sector cyhoeddus, yn argymell asesu hyfywdra ariannol yn erbyn risg fesul tendr unigol. Mae hyn yn cyferbynnu â'r polisi cyffredinol o ofyn am dair blynedd o gyfrifon wedi'u harchwilio heb ystyried maint na risg y contract sy'n destun y tendro.

Cydnabyddir bod yr angen i fod wedi bod mewn busnes am o leiaf dair blynedd yn rhwystr sylweddol i gwmnïau bach a chanolig a chwmnïau newydd sy'n ymgeisio am waith gan Lywodraeth y Cynulliad. Asesodd y Llywodraeth y risg, a dileodd yr angen am i gwmnïau gyflwyno tair blynedd o gyfrifon cyn cael eu hystyried i gael eu cynnwys ar restrau tendro am gontractau gwerth llai na £100,000. I gontractau uwchlaw'r trothwy hwn, mae angen dwy flynedd o gyfrifon erbyn hyn. Llywodraeth y Cynulliad oedd y sefydliad llywodraethu cyntaf i wneud hyn.

Dileodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd y rheol gorddibyniaeth, a fwriadwyd i atal busnesau bach rhag mynd yn rhy ddibynnol ar un cyflenwr, megis y Cynulliad. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn atal rhai cwmnïau bach a chanolig rhag ymgeisio o gwbl, ac mae'r pwyslais wedi cael ei drosglwyddo erbyn hyn i'r cwmni unigol i asesu ei risg o ddibyniaeth.

**Glyn Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod cwmnïau a busnesau Cymreig sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu hannog i dendro am gontractau sector cyhoeddus? (WAQ47964)

**Sue Essex:** Mae'r wefan gaffael genedlaethol yn cael ei rheoli ar y cyd gan Gwerth Cymru (Buy4wales), sydd yn fy adran i a'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (GwerthwchiGymru). Mae GwerthwchiGymru yn caniatáu i gyflenwyr o unrhyw faint gofrestru, yn rhad ac am ddim, yn erbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau y gallant eu cyflenwi i gyrff sector cyhoeddus.

Mae cyflenwyr yn cael hysbysiad e-bost am gyfleoedd contract sydd wedi dod i law gan gyrff sector cyhoeddus o Gymru a hefyd am bob cyfle contract drwy gyfrwng y Saesneg a gyhoeddir gan y Swyddfa Gyhoeddiadau Ewropeaidd.

Mae cyrff sector cyhoeddus yn cael eu hannog yn gryf i hysbysebu contractau a chyfleoedd tendro uwchlaw ac islaw trothwyon yr UE drwy Buy4wales.

Hyd yma mae cyfleoedd contract gwerth £2.2 biliwn wedi cael eu hysbysebu gan 76 o gyrff sector cyhoeddus o Gymru. Ym mis Awst yn unig hysbysebwyd gwerth £582 miliwn o gyfleoedd contract.

Bu swyddogion yn fy adran i yn gweithio'n agos gyda phrosiect datblygu cyflenwyr lleol yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau i hyrwyddo'r siarter 'Opening Doors'. Mae'r prosiect i ddatblygu cyflenwyr lleol yn darparu cymorth i fusnesau o Gymru sy'n dymuno tendro am gontractau sector cyhoeddus drwy hyfforddiant yn ymwneud â'r broses dendro a chymorth un wrth un i ddrafftio ceisiadau tendro.

Mae 'Opening Doors—The Charter for SME Friendly Procurement' yn manylu ar yr egwyddorion i hwyluso'r berthynas rhwng y sector cyhoeddus a chwmnïau bach a chanolig eu maint.

**Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ynglŷn â chysoni polisïau caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda pholisïau ar gyfer creu swyddi, cefnogi menter a chefnogaeth fusnes yng Nghymru? (WAQ47965)

**Sue Essex:** Cawn drafodaethau rheolaidd am y materion hyn. Nod y naill a'r llall ohonom yw sicrhau bod busnesau o Gymru yn cael y cymorth, y cyngor a'r wybodaeth i'w galluogi i gystadlu'n effeithiol am unrhyw fusnes, yn cynnwys busnes yn y sector cyhoeddus. Yn ein cytundeb y byddai Andrew Davies AC yn cadeirio'r tasglu caffael busnes, yr ydym yn tanlinellu ein dull strategol a thrawsbynciol o sicrhau bod datblygu economi Cymru yn gyson ag anghenion masnachol y sector cyhoeddus.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiffygion iechyd cyfredol yng Nghymru? (WAQ47831)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Cyfeiriaf yr Aelod Cynulliad at y datganiad llafar a wneuthum ddoe yn y Cyfarfod Llawn.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog mwy o bobl i ddod yn ofalwyr maeth yng Nghymru? (WAQ47832)

**Brian Gibbons:** Mae asiantaethau maethu yn gyfrifol am recriwtio yn ôl y galw yn lleol, sy'n amrywio. Ein profiad o'r gorffennol yw bod ymgyrchoedd lleol yn llawer mwy effeithiol nag ymgyrchoedd cenedlaethol a bod yn rhaid i ymgyrchoedd gael eu rheoli'n effeithiol gan asiantaethau maethu, a bod staff ar gael i ymateb yn gyflym i ddatganiadau o ddiddordeb. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cadarnhau bod yn well gan y rhan fwyaf o ofalwyr faethu plant lleol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau ar ddewis o leoliadau a sefydlogrwydd lleoliadau yn 2003, a rhannodd yr arferion gorau o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo awdurdodau lleol i recriwtio a chadw gofalwyr maeth. Yn ddiweddar cyhoeddais fod grant o £19,549 yn cael ei ddyfarnu i'r Rhwydwaith Maethu i sefydlu llinell gymorth i ofalwyr maeth yng Nghymru.

Yr ydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod yr arian i ofalwyr maeth yn adlewyrchu costau'r gofal y maent yn ei ddarparu. Byddaf yn ymgynghori'n fuan am y cynigion i gyflwyno isafsymiau yng Nghymru o ran lwfansau maethu i sicrhau taliadau tecach i ofalwyr maeth ac i wella cysondeb a thrylwyredd.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gofal ar gyfer pobl â chlefyd Alzheimer? (WAQ47834)

**Brian Gibbons:** Lansiwyd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn ar 20 Mawrth. Mae un o'r safonau yn ymdrin ag iechyd meddwl wrth fynd yn hŷn, gan roi sylw i'r materion arbennig a wynebir gan bobl hŷn a'u gofalwyr. Mae'r fframwaith yn disgrifio'r gwasanaethau y gall pobl sy'n dioddef o glefyd Alzheimer a dementias eraill ddisgwyl eu cael.

Mae dementia yn risg ddifrifol i annibyniaeth a gall arwain at anghenion gofal sylweddol yn ogystal â thriniaeth glinigol. Mae'r gallu i gyflawni tasgau arferol fel gwisgo amdanoch, defnyddio'r toiled a siopa yn debygol o ddirywio dros amser, a bydd angen i gymorth gyda'r tasgau hyn gael ei ddarparu gan ofalwyr (perthynas oedrannus yn aml), neu staff iechyd a gofal cymdeithasol o fewn cartref y person ei hun neu mewn amgylchedd gofal.

Mae rheoli a thrin dementia yn golygu:

- egluro'r diagnosis i'r person hŷn ac unrhyw ofalwyr a rhoi gwybodaeth berthnasol am ffynonellau help a chefnogaeth, y prognosis tebygol a'r opsiynau o ran pecynnau gofal. Gall cymorth o'r fath ddod oddi wrth dimau iechyd meddwl arbenigol, neu asiantaethau o'r sector gwirfoddol megis Cymdeithas Clefyd Alzheimer;
- cytuno ar gynllun gofal holistaidd sy'n ymdrin ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y person gan ganolbwyntio ar alluogi annibyniaeth;
- darparu rhaglenni seico-addysg strwythuredig i ofalwyr, i'w galluogi i ddeall y cyflwr a'i effaith ar ymddygiad y person a'i allu i weithredu yn well, a sut i fod yn fwyaf effeithiol yn eu rôl ofalu;
- cyfeirio pobl fel sy'n briodol i helpu gydag ofnau a phryderon, loes, problemau ymarferol ac ariannol a allai effeithio ar y person a'i ofalwr;
- ym mhob cam, pwysleisio priodweddau unigryw yr unigolyn sydd â dementia a chydnabod ei anghenion personol a chymdeithasol;
- defnyddio strategaethau rheoli anffarmacolegol, megis symbylu gwybyddol, adfer gwybyddol a hel atgofion, therapi corfforol, therapi galwedigaethol, sicrhau maeth da ac ati ochr yn ochr â therapi cyffuriau. Gall y rhain fod yn llesol yn lleihau effaith y clefyd neu'n arafu ei hynt;
- ymyriadau ymddygiadol a ffarmacolegol ar gyfer problemau mwy difrifol, megis rhithdybiaethau a rhithweledigaethau, loes difrifol neu berygl oherwydd tarfu ar ymddygiad;
- defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael i alluogi pobl sydd â dementia i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, a/neu i leihau'r risg—e.e. systemau sy'n cael eu gweithio â llais, goleuadau awtomatig, systemau rhybuddio wedi'u cysylltu â chanolfannau galwadau—sy'n cael eu rhaglennu i adnabod unrhyw ymddygiad neu weithgarwch anarferol.

Mae canllawiau ar drin a gofalu am bobl sydd â dementia yn cael eu datblygu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ac maent i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2006.

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau gweithredu o'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn a ddisgwylir gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol o safbwynt gwasanaethau Alzeimher a dementia yng Nghymru.

| Cam gweithredu | Erbyn pryd | Gan bwy |
|---|---|---|
| Strategaethau comisiynu lleol yn cynnwys cynllun strategol ar y cyd i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn (a phobl iau sydd â dementia), yn ymgorffori trefniadau ar gyfer:<br>• diagnosis amserol o fewn gofal sylfaenol a chyfeirio i gael asesiad;<br>• triniaeth, gofal a chymorth effeithiol—yn y gymuned, fel claf mewnol ac mewn cartrefi gofal;<br>cyswllt effeithiol â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thai yn gyffredinol. | Diwedd mis Mawrth 2007 | BILlau ac awdurdodau lleol ar y cyd â darparwyr gwasanaethau |
| Bod ystod o wasanaethau cynhwysfawr ac integredig, gan y sectorau statudol, annibynnol a gwirfoddol, yn | Diwedd mis Mawrth 2008 | BILlau, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau GIG, |

| | | |
|---|---|---|
| cael eu darparu i bobl hŷn sydd â phroblemau iechyd meddwl a'u bod, fel sy'n briodol:<br>• yn helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn y gymuned;<br>• yn helpu i osgoi neu leihau argyfwng;<br>• yn darparu cyngor a thriniaeth arbenigol;<br>• yn darparu gofal tymor hir. | | darparwyr gwasanaethau yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol |
| Bod ystod o wasanaethau arbenigol a chymorth yn cael ei darparu i bobl iau sydd â dementia a'u teuluoedd. | Diwedd mis Mawrth 2008 | BILlau, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau GIG, darparwyr gwasanaethau yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol |
| Bod llwybrau cyfeirio a phrotocolau diagnostig a chyfeirio yn cael eu datblygu rhwng gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal yn y gymuned a gwasanaethau gwirfoddol, ar gyfer:<br>• pobl hŷn sydd ag iselder, pryder a salwch meddwl arall sy'n effeithio ar y gall i weithredu;<br>• pobl hŷn sydd â dementia;<br>• pobl iau sydd â dementia;<br>Dylai'r rhain ategu'r broses asesu unedig/y broses Canolfan Polisi ar Heneiddio. | Diwedd mis Mawrth 2008 | BILlau, ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol |

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £3 miliwn i awdurdodau lleol yn 2006-07 i ddarparu gwasanaethau rheng flaen ychwanegol i ofalwyr pobl sydd â phroblem iechyd meddwl. Bydd y grant hwn yn cael ei gadw fel grant uniongyrchol blynyddol gan Lywodraeth y Cynulliad am dair blynedd (tan ddiwedd 2008-09). Caiff y cynllun grant ei adolygu yn ystod 2008-09.

Mae John Griffiths, y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am bobl hŷn, wedi cael ei benodi'n hyrwyddwr gofalwyr ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel rhan o'i rôl newydd, bydd Mr Griffiths yn gyfrifol am sicrhau yr ymdrinnir mewn ffordd gydlynol, fwy effeithiol, â materion trawsbynciol yn ymwneud â gofalwyr. Bydd yn goruchwylio datblygiad strategaeth ar gyfer gofalwyr yng Nghymru sydd wedi'i diweddaru, a ffocws newydd iddi, ynghyd â'r ffordd y'i rhoddir ar waith. Bydd y penodiad hwn yn anfon neges glir a chryf at sefydliadau eraill yng Nghymru am y flaenoriaeth a'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i faterion gofalwyr.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa ariannol byrddau iechyd lleol? (WAQ47835)

**Brian Gibbons:** Cyfeiriaf yr Aelod Cynulliad at y datganiad llafar a wneuthum ddoe yn y Cyfarfod Llawn.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cymorthfeydd meddygon teulu yng Nghymru? (WAQ47842)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn falch o roi gwybodaeth ddiweddaru am y lefel o fuddsoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad ar wella a moderneiddio adeiladau gwasanaethau meddygol cyffredinol.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae cynlluniau i ddatblygu meddygfeydd newydd yn cael eu hyrwyddo gan ddatblygwyr trydydd parti. Mae hyn yn arwain at wariant cyfalaf bychan iawn gan y GIG ar ddatblygu adeiladau. Mae'r datblygwyr yn darparu'r adeilad i'r practis a fyddai wedyn yn ymgymryd â'r brydles.

Mae'r Cynulliad wedyn yn talu'r refeniw yn cynnwys y costau rhentu am gyfnod y brydles sydd fel arfer yn 20 mlynedd. Mae'r trefniant hwn yn parhau cyhyd ag y mae gwasanaethau meddygol cyffredinol yn parhau i gael eu darparu yn yr adeiladau.

**Cyllido parhaus**
Mae £26.9 miliwn wedi cael ei ddyrannu i BILlau yn 2006-07 gogyfer â chynlluniau refeniw presennol. Yn ogystal, bydd costau rhentu rheolaidd cynlluniau refeniw sydd newydd gael eu cymeradwyo yn cael eu hychwanegu at y dyraniad blynyddol.

**System gyllido newydd**
Er 1 Ebrill 2004 pan gyflwynwyd contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd, mae'r cyllid wedi cael ei ddal yn ganolog ac mae'r BILlau yn cyflwyno ceisiadau i'r fforwm ystadau gofal iechyd i gael eu cymeradwyo. Nid yw hyn yn achosi oedi yn y broses ond mae'n rhoi darlun strategol i Lywodraeth y Cynulliad o ddatblygiadau eiddo ar draws Cymru. Caiff y ceisiadau eu seilio ar y blaenoriaethau a nodwyd yn strategaeth ystadau'r BILl, y mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â 'Chynllun Oes'. Mae dwy elfen i'r cyllid hwn:

(i) ceisiadau datblygu a gyflwynir gan BILlau am adeiladau newydd yn lle rhai presennol—mae'r rhain yn hanfodol i foderneiddio'r ystâd gofal iechyd bresennol a'i gwella hyd at safonau'r unfed ganrif ar hugain gydag adeiladau addas i'w pwrpas sy'n sicrhau amgylchedd cadarnhaol i gleifion a staff;

(ii) grantiau gwella—gwelliannau yw'r rhain i adeiladau gwasanaethau meddygol cyffredinol yr ymgymerir â hwy tra'n cynnal y gwasanaethau yn y practis. Enghraifft fyddai gwaith i sicrhau cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

Mae'n bwysig sylweddoli mai cyllido'r gwahaniaeth rhwng y rhent ar adeiladau presennol ac adeiladau newydd y mae'r Cynulliad gan mwyaf. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cefnogi cynlluniau cyfalaf mawr am gostau refeniw cymharol fach. Yr wyf yn falch bod ein system newydd hyd yma yn cefnogi gwerth rhyw £37 miliwn o wariant cyfalaf ar adeiladau gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd ar draws Cymru.

**Jonathan Morgan:** Beth fu cyfanswm y gost o gynnig Herceptin ar bresgripsiwn yn 2006 ac a wnaiff y Gweinidog roi cost gyfartalog a chost uned ar gyfer pob claf? (WAQ47897)

**Jonathan Morgan:** Pa asesiad o effaith y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ar y gyllideb Iechyd ers cyflwyno cynnig Herceptin ar bresgripsiwn fel mater o drefn? (WAQ47902)

**Jonathan Morgan:** Faint o gleifion yng Nghymru a dderbyniodd Herceptin yn 2006 a pha asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o sut mae'r ffigur hwn yn cymharu â Lloegr. (WAQ47903)

**Brian Gibbons:** Nid ydym yn dal y lefel hon o wybodaeth yn ganolog. Byddai'r gost o baratoi peth o'r data a geisiwyd yn afresymol a byddai'n uwch na therfyn cynghori'r Cynulliad ynglŷn â chostau.

Mae Trastuzumab (Herceptin) wedi cael ei drwyddedu yng Nghymru i'w ddefnyddio ar gyfer canser y fron yn ei gyfnodau cynnar ac ar ôl i'r clefyd ddatblygu ac mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol wedi rhoi cymeradwyaeth i'r GIG i'w ddefnyddio. Penderfyniad clinigol wedi'i seilio ar natur y tiwmor a pha mor briodol yw'r driniaeth i'r unigolyn dan sylw (yn unol â'r canllawiau) yw'r penderfyniad i roi trastuzumab ar bresgripsiwn. Wrth asesu effaith darparu'r cyffur hwn ar gyfer achosion cynnar o ganser y fron ar gynlluniau comisiynu yn 2006-07, mae'r byrddau iechyd lleol wedi cael cymorth ar ffurf canllawiau gan grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan a'r rhwydweithiau canser.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru

pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47899) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ47898.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan nifer a lleoliad unedau asesu ar gyfer darpariaeth ocsigen yng Nghymru? (WAQ47907)

**Brian Gibbons:** Mae canolfannau asesu o wahanol fathau yn bresennol yn ymddiriedolaethau'r GIG ledled Cymru. Ni ragwelwyd y byddai'r unedau o reidrwydd yn gyfleusterau pwrpasol ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth am y defnydd penodol a wneir ohonynt yn cael ei dal yn ganolog.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amseroedd aros ar gyfer triniaeth bracytherapi? (WAQ47909)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu yn 2006-07, felly nid oes amseroedd aros i'r gwasanaeth hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer bracytherapi? (WAQ47910)

**Brian Gibbons:** Comisiwn Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu bracytherapi ond nid yw wedi cael ei ddynodi fel blaenoriaeth fuddsoddi yn 2006. O ganlyniad, ni fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei gomisiynu yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r comisiwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth lleol ar gyfer y dyfodol.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd siwrneiau ambiwlans brys? (WAQ47917)

**Brian Gibbons:** Mae gwasanaeth ambiwlans Cymru yn ymgymryd â nifer sylweddol o siwrneiau brys bob blwyddyn. Yn ystod 2005-06 cwblhaodd gwasanaeth ambiwlans Cymru dros 63,000 o siwrneiau brys ac o'r rheini cyrhaeddodd dros 43,500 ar draws Cymru y safon i'r gwasanaeth. Dywed y safon y dylai ymatebion i alwadau brys gyrraedd yr ysbyty ddim hwyrach na 15 munud ar ôl yr amser cyrraedd y gofynnodd y meddyg amdano.

**Jenny Randerson:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno rheoliadau cyfunol ar gyfer fferyllfeydd ar ffurf y rhai a gyflwynwyd yn Lloegr yn 2005 ac, os oes, pryd y cânt eu cyflwyno? (WAQ47959)

**Brian Gibbons:** Er y byddai'n ddymunol cyfnerthu'r rheoliadau, rhaid ystyried hyn ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill, felly nid yw wedi cael ei amserlennu eto.

**Jenny Randerson:** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno'r rheoliadau gwledig ar gyfer gwasanaethau fferyllol a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd? (WAQ47960)

**Brian Gibbons:** Mae'r contract fferylliaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar sail genedlaethol a lleol. Yr wyf yn dal i ymrwymo i sicrhau bod ardaloedd gwledig yn cael eu gwasanaethu'n dda gan eu gweithwyr iechyd proffesiynol ac mae'r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar gynigion a fydd yn

adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch 'rheoli mynediad' a fydd yn sicrhau bod hyn yn parhau i ddigwydd.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd Ytrium ar gyfer trin tiwmorau carsenaidd yn yr iau i gleifion yng Nghymru? (WAQ47961)

**Brian Gibbons:** Mater i glinigwyr unigol mewn ymgynghoriad â'u cleifion yw defnyddio Ytrium i drin tiwmorau carsenaidd yn yr iau. Mae astudiaethau arbrofol ar y gweill, yn defnyddio isotopau ymbelydrol sy'n cael eu rhoi drwy bigiad mewnol i gleifion carsenaidd sydd wedi cael eu dethol, mewn nifer o ganolfannau ymchwil. Yr isotopau sy'n cael eu ffafrio ar hyn o bryd yw Ytrium 90 (Y90) a Lutetium 177.

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu ychwanegu gwell gwasanaethau ar gyfer atal a chanfod osteoporosis at gontract meddygon teulu, ac os felly, pa ddangosyddion y mae'n bwriadu eu defnyddio? (WAQ47972)

**Brian Gibbons:** Caiff y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol ei negodi ar sail y pedair gwlad. Mae fframwaith ansawdd a chanlyniadau'r contract yn annog darparu gofal o ansawdd uchel wrth reoli cyflyrau cronig. Caiff tystiolaeth o blaid cynnwys dangosyddion am ymyriadau penodol, sy'n unol â'r arferion gorau ac y gellir dangos eu bod yn gwella'r gofal dros gleifion, yn y fframwaith ansawdd a chanlyniadau ei hystyried gan banel arbenigol annibynnol sy'n gwneud argymhellion i'r timau negodi.

Mae'r panel cyfredol yn drefniant cydweithio rhwng y Gymdeithas Gofal Sylfaenol Academaidd, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a Phrifysgol Birmingham. Cafodd tystiolaeth o blaid cynnwys dangosyddion gogyfer ag osteoporosis ei hystyried gan y panel yn ystod adolygiad 2005-06. Mae modd gweld y dystiolaeth, adolygiad y panel a'i argymhellion ar wefan Adran Gofal Sylfaenol ac Ymarfer Cyffredinol Prifysgol Birmingham ar
http://www.pcpoh.bham.ac.uk/primarycare/QOF/PDF/Osteoarthritis.pdf

Dengys yr adroddiad bod saith dangosydd osteoporosis wedi cael eu gwerthuso gan y panel. Cafodd y rhain eu hystyried wedyn ynghyd â dangosyddion o 39 o adroddiadau eraill a luniwyd gan y panel, yn ystod trafodaethau rhwng adrannau iechyd y DU a'r Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol. Yn anffodus, ni theimlwyd bod yr achos o blaid cynnwys y dangosyddion osteoporosis cyn gryfed â blaenoriaethau clinigol eraill.

Mae cytundeb rhwng y partïon trafod y bydd y fframwaith ansawdd a chanlyniadau yn parhau i gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn esblygu yn unol â'r dystiolaeth sy'n ymddangos a'i fod yn dal i adlewyrchu'r arferion gorau.

**Jonathan Morgan:** Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o sut mae'r diffygion cyfredol ar gyfartaledd yn y GIG yng Nghymru yn cymharu â'r rhai yn Lloegr? (WAQ47975)

**Brian Gibbons:** Er bod y Cynulliad yn cael adroddiadau ariannol a rhagolygon misol yn rheolaidd gan yr ymddiriedolaethau a'r BILlau yng Nghymru, nid oes gwybodaeth o'r fath yn dod i law am ymddiriedolaethau Lloegr a'r ymddiriedolaethau gofal sylfaenol, felly nid oes cymariaethau'n bosibl.

Yn achos y BILlau, byddai'n anodd gwneud cymariaethau effeithiol hefyd oherwydd y gwahaniaethau yn y strwythurau a'r gwasanaethau a ddarperir gan BILlau ac ymddiriedolaethau gofal sylfaenol.

**Jonathan Morgan:** Pa gynnydd mae'r Gweinidog wedi ei wneud o ran gostwng y diffygion yn y GIG yng Nghymru ers iddo ddechrau yn ei swydd? (WAQ47976)

**Brian Gibbons:** Gwneuthum ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 27 Medi 2006, yn manylu am y camau sydd wedi cael eu cymryd i leihau'r diffygion yn y GIG yng Nghymru.

Mae perfformiad ariannol cyrff GIG yn cael ei fonitro'r rheolaidd gydol y flwyddyn drwy'r swyddfeydd rhanbarthol. Yn y lle cyntaf, bydd y swyddfa ranbarthol yn gweithio gydag unrhyw sefydliad sy'n dweud ei fod yn cael anawsterau i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gywiro'r broblem.

Os canfyddir, ar ôl y gwaith hwn, bod sefydliad yn wynebu problemau na all eu datrys yn ystod y flwyddyn a/neu fod ganddo broblemau gwaelodol sy'n effeithio ar ei allu ei gyrraedd y targed statudol i fantoli'r cyfrifon, yna rhaid i'r sefydliad gynhyrchu cynllun strategol newid ac effeithlonrwydd. Neu, lle cytunwyd eisoes ar gynllun o'r fath, rhaid iddo gynhyrchu cynllun strategol newid ac effeithlonrwydd wedi'i ddiwygio, yn unol â chylchlythyr iechyd Cymru (2004) 34.

Gall y swyddogion alw am adolygiad annibynnol o reolaeth ariannol sefydliad er mwyn helpu i gynhyrchu cynllun strategol newid ac effeithlonrwydd cryf, fel sydd wedi digwydd yng nghymuned iechyd Gwent.

Y swyddog cyfrifo unigol sydd yn dal i fod yn gyfrifol, serch hynny, am sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu mantoli ac ef sy'n gyfrifol am gytuno ar unrhyw gynlluniau adfer lle maent yn angenrheidiol. Mae pwerau eang iawn eu cwmpas yn bodoli o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ac o dan y trefniadau swyddog atebol i sicrhau bod sefydliadau yn cyrraedd targedau perfformiad (yn cynnwys perfformiad ariannol).

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion a) y diffygion ariannol cyfredol a wynebir gan y BILlau ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru b) manylion diweddaraf y diffygion ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-07 ac c) a wnaiff ddatganiad? (WAQ47977)

**Brian Gibbons:** Mae sefyllfa ariannol y BILlau a'r ymddiriedolaethau am 2005-06 wedi cael ei nodi yn y cyfrifon cryno, yr atgynhyrchwyd rhannau ohonynt isod, a chyfeiriwyd ati hefyd yn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 27 Medi 2006.

Cytunwyd ar gynlluniau newid ac effeithlonrwydd gyda dau sefydliad yn 2006-07, sydd â diffyg llawn wedi'i gynllunio o £5.9 miliwn. Mae'r diffygion a ragwelir mewn sefydliadau eraill yn dal i gael eu hadolygu gan y swyddogion ac mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i wneud datganiad clir am y sefyllfa bosibl yn 2006-07.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47900) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ47898.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gwella ansawdd tai yng Nghymru? (WAQ47924)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Safon ansawdd tai Cymru yw'r targed o ran cyflwr adeileddol ac amgylcheddol tai cymdeithasol presennol. Disgwylir i bob landlord cymdeithasol ddangos, drwy gynlluniau busnes, bod modd cyrraedd y safon erbyn 2012 a'i

chynnal wedi hynny yn ystod y cyfnod cynllunio deng mlynedd ar hugain ynghyd ag adrodd yn flynyddol am y cynnydd o’i gymharu â’r safon. Caiff asesiadau cynnydd cenedlaethol eu darparu drwy arolygon achlysurol byw yng Nghymru.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda’r Gweinidog dros Addysg ynghylch rôl y system addysg yn mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? (WAQ47925)

**Edwina Hart**: Yr wyf wedi trafod rhaglen ysgolion Cymru gyfan, sy’n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda’r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn rheolaidd. Mae’r rhaglen yn rhan o’r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol a’i nod yw addysgu pobl ifanc am beryglon camddefnyddio sylweddau, yn cynnwys goryfed mewn pyliau, sydd yn aml yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth ar gyfer prynwyr cartref cyntaf? (WAQ47926)

**Edwina Hart:** Ym mis Mehefin cyhoeddasom becyn cynhwysfawr o fesurau polisi a chanllawiau gyda’r nod o gynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy sydd ar gael, yn cynnwys ein pecyn cymorth tai fforddiadwy a diwygiadau i bolisi cynllunio. Dylai’r rhain helpu i gynyddu’r cyfleoedd sydd ar gael i brynwyr tro cyntaf y tu mewn a’r tu allan i’r rhaglen grantiau tai cymdeithasol.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y buddiannau a ddaeth yn sgil codi gatiau ar draws alïau yn y Rhyl? (WAQ47927)

**Edwina Hart:** Mae prosiect codi gatiau ar draws alïau yn y Rhyl yn un o ystod o fesurau gostwng lefelau troseddu sydd wedi cyfrannu at ostyngiad o 6.5 y cant yn y ffigurau troseddu a gofnodwyd yn y Rhyl yn 2005-06.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn Shotton Uchaf? (WAQ47928)

**Edwina Hart:** Mae partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Shotton Uchaf yn gweithio’n galed i gefnogi a datblygu’r gymuned leol. Hyd yma mae wedi cael £613,581 o arian Cymunedau yn Gyntaf. Mae’r trigolion wedi cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau hyfforddi a datblygu sydd wedi gwella eu bywydau a’u cymuned.

**Ann Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae’r Gweinidog wedi eu cael am rwystro camddefnyddio tân gwyllt yng Nghymru? (WAQ47929)

**Edwina Hart:** Mater i’r Adran Masnach a Diwydiant yw rheoliadau i reoli’r defnydd o dân gwyllt. Fodd bynnag, mae camddefnyddio tân gwyllt yng Nghymru yn fater sy’n peri pryder mawr ac yr wyf yn ei drafod yn ystod fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda’r prif swyddogion tân.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn Ne Clwyd? (WAQ47930)

**Edwina Hart:** Mae De Clwyd yn elwa o nifer o raglenni sy’n rhoi ein hagenda cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio ar waith: cynorthwyo teuluoedd sy’n dlawd o ran tanwydd, er enghraifft, drwy wario dros £1,355,000 yn Ne Clwyd drwy’r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref er 2000. Mae’r partneriaethau

diogelwch tân cymunedol yn helpu i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, cam-drin yn y cartref, troseddu ac anhrefn. Mae'r asiantaeth Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn ac anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

**Karen Sinclair:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ne Clwyd? (WAQ47931)

**Edwina Hart**: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig, amlasiantaethol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cronfa cymunedau mwy diogel y Cynulliad yn darparu £353,124 yn 2006-07 i bartneriaethau yn Ne Clwyd ac mae hyn yn cyllido, ymysg pethau eraill, rhaglen o gosbau cymunedol, prosiect cynhwysiant ieuenctid, gweithiwr ieuenctid camddefnyddio sylweddau a chynllun wardeiniaid cymunedol. Mae gan bob partneriaeth yng Nghymru hefyd gyd-drefnwyr dynodedig ymddygiad gwrthgymdeithasol i yrru gwaith ar ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ymlaen.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu effaith cynnau tanau bwriadol ar gymunedau yng Nghymru ac ar ein gwasanaethau tân ac achub? (WAQ47933)

**Edwina Hart:** Mae cynnau tanau'n fwriadol yn dal i gael effaith negyddol ar yr amgylchedd ac ar gymunedau. Mae ystadegau'r gwasanaethau tân ac achub yn dangos bod y gost i Gymru yn 2005-06, mewn termau economaidd yn unig, yn £53.7 miliwn.

Yr ydym wedi gweithio am nifer o flynyddoedd i ymladd y broblem ac wedi sefydlu timau atal tanau bwriadol a chronfa ar gyfer prosiectau lleol i atal tanau bwriadol. Mae'r pwyllgor diogelwch tân cymunedol hefyd yn ystyried strategaeth ddrafft i leihau'r nifer o achosion o gynnau tanau'n fwriadol yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig? (WAQ47934)

**Edwina Hart:** Yn fy ymateb blaenorol i'ch cwestiwn llafar a gyflwynwyd ar 27 Mai 2005, dywedais fod system reoleiddio newydd wedi cael ei chyflwyno i sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu rheoli'n iawn, eu llywodraethu'n iawn a'u bod yn hyfyw yn ariannol. Ym mis Mawrth 2006 cyhoeddwyd cod rheoleiddio diwygiedig, sy'n adlewyrchu pwerau statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn llawn ac yn nodi disgwyliadau allweddol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd ag arolygiadau annibynnol rheolaidd o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Seilir yr arolygiadau ar y cod rheoleiddio sy'n monitro, o safbwynt y tenant, pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'r landlord yn cael eu darparu.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei pholisïau ar gyfer darparu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru? (WAQ47936)

**Edwina Hart:** Mae'r adroddiad blynyddol cyfiawnder cymdeithasol am 2005 yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r holl raglenni a pholisïau ar draws Llywodraeth y Cynulliad a fwriadwyd i ymladd tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae modd gweld yr adroddiad llawn yn electronig ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ac mae taflen sy'n mynd law yn llaw ag ef wedi cael ei dosbarthu'n eang ledled Cymru.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei phortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47892) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ47898.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil? (WAQ47938)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Yr ydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil ar draws Cymru. Yr ydym wedi cyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol i symud ein hymrwymiadau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ymlaen, gan hyrwyddo'r angen i fynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu ac anghydraddoldeb drwy hynny.

Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a sawl sefydliad arall i hyrwyddo cysylltiadau da ar draws Cymunedau a helpu i ddileu gwahaniaethu.

**Michael German:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo llywodraeth agored? (WAQ47939) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae ein Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn nodi'r fframwaith i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r polisi a adlewyrchir yn ein cod yn disgrifio fel yr ydym yn mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Yr ydym wedi cwblhau dros 1,300 o geisiadau er 1 Ionawr 2005 pryd y cychwynnodd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r rheoliadau gwybodaeth amgylcheddol. Yr ydym yn parhau i sicrhau bod profiad o ddelio â cheisiadau yn cael ei rannu ymysg y staff drwy hyfforddiant parhaus a thrwy'r gymuned waith. Mae'r mesurau hyn yn help inni i gyrraedd y safonau uchel yr ydym wedi ymrwymo iddynt yn gyson. Gwahoddir cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i ddod i gyfarfodydd allweddol y gymuned waith er mwyn iddynt hwy hefyd ddatblygu arferion da.

Yr ydym yn dal i adolygu'n trefn i ymdrin â cheisiadau am wybodaeth a sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Cyhoeddir y drefn ar y rhyngrwyd, sy'n ei gwneud yn bosibl i awdurdodau cyhoeddus eraill fanteisio arni.

Yr ydym yn y broses o ddiweddaru ein cynllun cyhoeddiadau sydd wedi cael canmoliaeth eang i sicrhau ein bod yn cyhoeddi llawer o wybodaeth fel mater o drefn. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn ac mae wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn.

**Carl Sargeant:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed yn y gweithle? (WAQ47940)

**Jane Hutt:** Nid yw rhagfarn ar sail oed yn dderbyniol ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i'w threchu. Yr ydym yn datblygu nifer o gynlluniau gyda'r nod o fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i symud yr Ymgyrch yn Gadarn o Blaid Pob Oedran yn ei blaen yng Nghymru. Nod

yr ymgyrch yw sicrhau bod cyflogwyr yn canolbwyntio ar botensial, sgiliau a gallu yn hytrach nag oedran ar bob cam o'r cylch cyflogi—o recriwtio hyd at hyfforddi ac ymddeol. Yr ydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda llywodraeth y DU i gyflwyno'r Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) ar 1 Hydref 2006, a fydd yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr cyflog, hyfforddeion neu geiswyr swyddi oherwydd eu hoed.

**Michael German:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella hygyrchedd a chynnwys gwybodaeth ei gwefan? (WAQ47941)

**Jane Hutt:** Mae hygyrchedd gwefannau yn cael ei ddiffinio gan safon ryngwladol a adwaenir fel canllawiau hygyrchedd cynnwys gwefannau. Mae canllawiau Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu gwefannau newydd yn pennu bod yn rhaid i bob gwefan sector cyhoeddus newydd gael ei llunio yn unol â'r safon hon. Wrth ddatblygu gwefan newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ydym wedi cyrraedd y safon a argymhellir neu wedi rhagori arni.

- Cafodd y wefan ei dylunio gan ddilyn proses ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr i helpu i ddiffinio cynnwys gwybodaeth a strwythur y wefan;
- mae'r wefan wedi bodloni neu wedi rhagori ar y meini prawf allweddol o ran hygyrchedd, sy'n ei gwneud yn un o'r gwefannau mwyaf hygyrch yng Nghymru;
- yr ydym wedi comisiynu archwiliad annibynnol i ba mae hygyrch yw'r wefan gyfredol. Bydd hwn yn cael ei gyflawni gan Ymddiriedolaeth Shaw yn yr wythnos yn dechrau 25 Medi 2006. Bydd yr argymhellion a wneir yn adroddiad Ymddiriedolaeth Shaw yn sylfaen i welliannau i'r wefan yn y dyfodol.